Bundle Health Board - Welsh 18 November 2021

9.30am trwy Zoom
Sesiwn Cyhoeddus v2.0

1 Agenda
- Agenda Health Board 18.11.21_Cymraeg_v1.0.docx

2 21.208 Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 23 Medi er cywirdeb
- 21.208a Minutes Board 23.9.21 Public V0.4 Cymraeg.docx

3 21.211 Adroddiad Prif Weithredwr - Jo Whitehead
- 21.211 CEO report_Cymraeg.docx

4 21.213 Diweddariad Covid-19 - Gill Harris
- 21.213 Covid Update.pptx

5 21.214 EITEM AM GYDSYNIAD - Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Nick Lyons
- 21.214 Section 12(2) Doctors_Cymraeg.docx

6 21.222 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad - Sue Hill
- 21.222a QaPR_Cymraeg.docx

7 21.223 Adroddiad Cynnydd Monitro Cynllun Gweithredu - Sue Hill
- 21.223a OPMR_Cymraeg.docx

8 21.224 Adroddiad Cyllid - Sue Hill
- 21.224 Finance Report M06_approved.docx

9 21.227 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori
- 21.227.1 Chair's Report Covid Cabinet Sept and Oct 2021_Cymraeg.docx
- 21.227.2 Chair's Assurance report Audit 28.9.21 V1.0 Cymraeg.docx
- 21.227.3 Chair's Assurance Report QSE 2.11.21 v1.0_Cymraeg.docx
- 21.227.4 Chair's Assurance Report PFIG 28.10.21 V2.0 Cymraeg.docx
- 21.227.5 Chair's Assurance Report PPPHC 14.10.21 v1.0 CYMRAEG.docx
- 21.227.6 Chair's Report SRG 20.09.21 V1.0 Cymraeg.doc
- 21.227.7 Chair's Report HPF 3.9.21 V1.0_Cymraeg.doc

10 21.231 Crynodeb o Fusnes Preifat y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus
- 21.231 Private session items reported in public_Cymraeg.docx

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Agenda - Sesiwn Gyhoeddus

Dyddiad	18/11/2021
Amser	9:30am – 1.30pm
Lleoliad	Yn rhithwir dros Zoom
Cadeirydd	Mark Polin

BUSNES AGORIADOL
21.206.1 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb - Mark Polin
21.206.2 Datganiadau Diddordeb
21.207 Stori Staff – Gill Harris
21.208 Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 23 Medi er cywirdeb
21.209 Materion yn Codi a Chofnod Cryno o Gamau Gweithredu
21.210 Adroddiad y Cadeirydd - Mark Polin
21.211 Adroddiad Prif Weithredwr - Jo Whitehead
21.212 Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Dargedu – Gill Harris
21.213 Diweddariad Covid-19 - Gill Harris
21.214 EITEM AM GYDSYNIAD - Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Nick Lyons
21.215 EITEM AM GYDSYNIAD - Cynllun Cadw a Dirprwyo Brys - Louise Brereton
EITEMAU STRATEGOL - Y DYFODOL

21.216 Diweddariad Trawsnewid – Chris Stockport
21.217 Diweddariad Datblygu Strategaeth - Chris Stockport
21.218 Achos Amlinellol Strategol: Gofal Cychwynnol Cyffordd Llandudno/Conwy - Chris Stockport
ANSAWDD, DIOGELWCH A PHERFFORMIAD - Y PRESENNOL
21.219 Diweddariad ar Weithredu'r Adolygiad Llywodraethu ac Edrych Ymlaen at waith Cyfnod 2 - Simon Evans-Evans
21.220 Adolygiad Wroleg - Gill Harris
21.221 Gwasanaethau Fasgwlaidd - Nick Lyons
21.222 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad - Sue Hill
21.223 Adroddiad Cynnydd Monitro Cynllun Gweithredu - Sue Hill
21.224 Adroddiad Cyllid - Sue Hill
21.225 Diweddariad Gofal Cychwynnol - Dr Chris Stockport
21.226 Adroddiad Staffio Nyrsys - Gill Harris
21.227 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori 21.227.1 Cabinet Covid 15.9.21, 30.9.21, 14.10.21 a 28.10.21 (Mark Polin) 21.227.2 Pwyllgor Archwilio 28.9.21 (Medwyn Hughes) 21.227.3 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 2.11.21 (Lucy Reid) 21.227.4 Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu Gwybodaeth 28.10.21 (John Cunliffe) 21.227.5 Pwyllgor Iechyd Pobl a Phoblogaeth 14.10.21 (Linda Tomos) 21.227.6 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 20.9.21 (Clare Budden) 21.227.7 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd 3.9.21 (Gareth Evans)
MATERION I GLOI
21.228 Eitemau i Gyfeirio at Bwyllgorau Ar lafar
21.229 Adolygu'r Risgiau a Nodwyd yn ystod y Cyfarfod Ar lafar
21.230 Adolygu Effeithiolrwydd Cyfarfod Gwahoddir aelodau i fyfyrio ar effeithiolrwydd y cyfarfod
21.231 Crynodeb o Fusnes Preifat y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus

21.232 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

20 Ionawr 2022 - i ymgorffori cyfarfod blynyddol yr Ymddiriedolwyr

21.233 Heb y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd - "Penderfynwyd bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn gan ystyried natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, a byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 23ain Medi 2021 trwy Zoom

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Louise Brereton	Ysgrifennydd y Bwrdd
Nicky Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Morwena Edwards	Aelod Cyswllt ~ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif
Gill Harris	Swyddog Gweithredol
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
Linda Tomos	Aelod Annibynnol
Jo Whitehead	Prif Weithredwr

Yn mynychu:

Michelle Denwood	Cyfarwyddwr Cyswllt Diogelu *(rhan o'r cyfarfod)*
Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol *(cofnodi)*
Jody Evans	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (*cynorthwyo gyda'r ffrydio byw)*
Mason Fitzgerald	Sefydliad Llywodraethu Da (*arsylwi rhan o'r cyfarfod*)
Lowri Gwyn	Cyfieithydd
Ian Howard	Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Dadansoddiad Strategol a Busnes (rhan o'r cyfarfod)
Mandy Jones *(deputising)*	Is-gadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Matt Joyes	Cyfarwyddwr Cyswllt Gweithredol Sicrwydd Ansawdd (ar *gyfer eitem 21.157*)
Rob Nolan *(deputising)*	Cyfarwyddwr Cyllid - Comisiynu a Chynllunio Ariannol Strategol
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes Gweithredol Swyddfa'r Cadeirydd (*cynorthwyo gyda'r ffrydio byw*)
Mike Smith	Cyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio Iechyd Meddwl (*rhan o'r cyfarfod)*
Chris Subbe	Uwch Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu (*rhan o'r cyfarfod*)
Rod Taylor	Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau (*rhan o'r cyfarfod)*
Joanna Watson	Sefydliad Llywodraethu Da (*arsylwi*)
Iain Wilkie	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl (*rhan o'r cyfarfod)*

Eitem Agenda a Drafodwyd	Gweithred erbyn:
21.156 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb **21.156.1** Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd Iechyd a oedd eto'n cael ei ffrydio'n fyw i alluogi aelodau'r cyhoedd i wylio'r cyfarfod fel yr oedd yn digwydd. Cadarnhaodd fod croeso i aelodau gyfrannu yn yr iaith o'u dewis gan fod cyfieithu Cymraeg i Saesneg ar y pryd ar gael. **21.156.2** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Clare Budden, Gareth Evans a Sue Hill. Croesawyd dirprwyon ac arsylwyr i'r cyfarfod a chyflwynodd y Cadeirydd Dr Nick Lyons fel y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sydd newydd gael ei benodi.	
21.157 Straeon Cleifion **21.157.1** Chwaraewyd fersiwn sain o stori claf i'r aelodau, a darparwyd trawsgrifiad hefyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd fod llawer o gleifion eraill wedi nodi profiadau tebyg mewn perthynas â Covid Hir ac roedd am achub ar y cyfle i ddiolch i'r rhai a oedd wedi cyfrannu at ddatblygiad y llwybr tîm amlddisgyblaethol. Cyfeiriodd hefyd at y Rhaglen Cleifion Arbenigol berthnasol. Roedd oddeutu cant o gleifion wedi'i mynychu hyd yma, a'r cwrs nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref. Yn olaf, cyfeiriodd at yr ansicrwydd yn genedlaethol ynghylch symptomau Covid Hir ac effaith y rhaglen frechu. **21.157.2** Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) fod straeon cleifion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Teimlai fod diffyg dealltwriaeth ynghylch Covid Hir a bod effaith yr afiechyd yn llawer ehangach na dim ond cyfraddau marwolaeth. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod yn rhaid i gynlluniau sefydliadol tymor hwy gynnwys goblygiadau cymdeithasol Covid Hir. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cynnydd a wnaed wrth ymateb i Covid Hir gael ei ystyried yn un o'r sesiynau briffio Covid a baratoir ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Dymunai hefyd fynegi diolch i'r claf a oedd wedi rhannu ei stori. **21.157.3** Amlygodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y ffaith fod y claf a oedd yn rhan o'r stori hon hefyd yn aelod o staff BIPBC, a'i bod yn dymuno cydnabod yr arweinyddiaeth dosturiol amlwg a ddangoswyd gan y rheolwr llinell perthnasol. O ran y gefnogaeth a oedd ar gael i staff o amgylch materion yn ymwneud â Covid, roedd yn rhagweld y byddai angen i hyn barhau am gryn amser ac, wrth nodi blinder ar draws y sefydliad ar hyn o bryd, y byddai'n bwysicach nag erioed cydnabod effaith seicolegol y pandemig ar y gweithlu ac i ddarparu ystod o gefnogaeth i gefnogi eu hiechyd a lles. **21.157.4 Penderfynodd y Bwrdd Iechyd** dderbyn a myfyrio ar stori'r claf.	CS AT GH
21.158 Datganiadau Buddiant **21.158.1** Nid oedd datganiad o fuddiant.	

21.159 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 15 Gorffennaf 2021 o ran cywirdeb **21.159.1** Cymeradwywyd fel cofnod cywir.	
21.160 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021 o ran cywirdeb **21.160.1** Cymeradwywyd fel cofnod cywir.	
21.161 Materion yn Codi a Log Gweithredu Cryno **21.161.1** Darparwyd diweddariadau i'r log gweithredu cryno.	
21.162 Adroddiad y Cadeirydd **21.162.1** Adroddiad y Cadeirydd ar Weithredoedd y Cadeirydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd: 1. Cymeradwyo talu Cytundeb Menter Microsoft Cymru Gyfan 2021/22 am £3.2m trwy gymeradwyo cynnydd dros dro i derfynau cymeradwyo cyllid refeniw y Cyfarwyddwr Gweithredol ar Oracle i £3.2m. 2. Cymeradwyo ailsefydlu Cabinet Covid-19. **21.162.2** Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd: 1. O benodiad Ms Mandy Jones yn Is-gadeirydd i'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol 2. Bod cyfweliadau ar gyfer 3 rôl Aelod Annibynnol wedi'u cynnal a bod yr argymhellion wedi eu gyrru i'r Gweinidog i'w cymeradwyo ar hyn o bryd. 3. Bod rhaglen newydd ar gyfer datblygu'r Bwrdd wedi cychwyn, yn cael ei chynnal gyda'r hwyluswyr Kings Fund. 4. Ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Cydlynu Adferiad gyda phartneriaid, a chytunwyd ar brosesau uwch gyfeirio trwy'r strwythurau presennol parodrwydd i ymateb i argyfwng. 5. Cynhaliwyd cyfarfod teirochrog yn cynnwys Llywodraeth Cymru (LlC), Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) i adolygu'r heriau ym maes iechyd meddwl oedolion a phlant ac i ystyried pa gamau oedd eisoes yn eu lle neu ar y gweill.	
21.163 Adroddiad y Prif Weithredwr **21.163.1** Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd nodi cynnwys adroddiad y Prif Weithredwr	
21.164 Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Dargedu (Targeted Intervention Improvement Framework - TIIF) **21.164.1** Awgrymodd y Prif Weithredwr nad oedd y papur yn ei fformat presennol yn adlewyrchu'r ystod o weithgareddau a chamau gweithredu a oedd ar y gweill neu wedi'u cwblhau yn llawn ac y byddai'n trefnu bod y Tîm Gweithredol yn adolygu'r fformat. **21.164.2** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Sefydliad Llywodraethu Da yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar gyfer paratoi'r TIIF, ac y byddai hyn yn darparu goruchwyliaeth a	JW

sicrwydd annibynnol ynghylch cefnogi strwythurau llywodraethu a chymhwyso tystiolaeth yn gyson. **21.164.3 Penderfynodd y Bwrdd** nodi'r cynnydd yn y waith Gwelliant wedi'i Dargedu.	
21.165 Diweddariad Covid-19 **21.165.1** Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gyflwyniad a oedd yn cynnwys manylion: • Cynnydd mewn niferoedd cymunedol. • Effaith cael gwared ar gyfyngiadau yng Nghymru. • Effaith aelodau staff yn gorfod ynysu. • Y wybodaeth ddiweddaraf am niferoedd a dwyster achosion cleifion mewnol. • Cau'r 'brigiad achosion' (outbreak) yn Ysbyty Gwynedd (YG). Adrodd i barhau am 28 diwrnod gyda chyfanswm cronnus o 35 o gleifion â haint sy'n debygol o fod wedi cael ei ddal neu a gadarnhawyd o fewn gofal iechyd (healthcare acquired infection -HCAI). • Datganiad brigiad achosion yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) ar 08.09.21 gyda 27 o gleifion a 9 aelod o staff â haint sy'n debygol o fod wedi cael ei ddal neu a gadarnhawyd o fewn gofal iechyd (healthcare acquired infection -HCAI). Roedd y digwyddiad yn cael ei reoli trwy'r Tîm Rheoli Brigiadau Achosion (Outbreak Control Team - OCT). • Penderfyniadau a gymerwyd gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau Gweithredol (Executive Incident Management Team - EIMT) gan gynnwys y cyfyngiadau ar ymweld ag ysbytai; cymeradwyo Gweithdrefn Weithredu Safonol (Standard Operating Procedure - SOP) ar gyfer y rhaglen frechu a chadarnhau canslo gofal wedi'i gynllunio. • Diweddariad ar Brofi Olrhain Diogelu (Test Trace Protect - TTP). • Diweddariad ar y rhaglen frechu a chynnydd yn erbyn pob un o'r carfannau. • Gweithredu'r rhaglen atgyfnerthu (booster). **21.165.2** Cydnabuwyd ymrwymiad staff i reoli'r pwysau yn gyffredinol a datblygu'r rhaglenni brechu a Phrofi Olrhain Diogelu. Adroddwyd hefyd bod lefelau adrodd wedi cynyddu ac roedd y Tîm Rheoli Digwyddiadau Gweithredol (Executive Incident Management Team -EIMT) bellach yn cwrdd dair gwaith yr wythnos. Yn ogystal, roedd y Cabinet wedi ailymgynnull bob pythefnos i gadarnhau penderfyniadau'r EIMT a byddai'r ail gyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer yr wythnos yn dechrau 27.9.21. **21.165.3 Penderfynodd y Bwrdd**: 1. Dderbyn cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad ategol a roddwyd i'r Bwrdd; 2. Cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig yn ymateb y rheolwyr a'r strwythur ategol; 3. Cymeradwyo'r penderfyniadau a wnaed gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau Gweithredol.	GH
21.166 Cynnal Llywodraethu Da yn ystod Covid 19	

21.166.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd bapur gyda'r bwriad o roi sicrwydd fod materion llywodraethu yn cael eu hadolygu yn ystod heriau'r pandemig. Dywedodd fod y Cabinet wedi cael ei adfer trwy weithred gan y Cadeirydd ac y byddai adolygiad o'r cylch gorchwyl yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas. Mae'r SOP ar gyfer gweithredoedd y Cadeirydd hefyd wedi'i diweddaru. Roedd gweithredu'r trefniadau a Fframwaith Llywodraethu Integredig, gan gynnwys trosglwyddo i gylchoedd busnes a chylchoedd gorchwyl newydd yn mynd rhagddo, ac roedd y sefydliad yn bwriadu cadw trefniadau cyfarfodydd cyfredol y Bwrdd a'r Pwyllgorau'r un fath, gyda'r hyblygrwydd i adolygu hyn pe byddai'r pwysau gweithredol a sefydliadol yn parhau i gynyddu. **21.166.2 Penderfynodd y Bwrdd** nodi a chefnogi'r diweddariad yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu sydd bellach yn eu lle.	
21.167 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad Cofrestr Adran 12 (2) Meddygon Cymeradwy Cymru a Diweddaru Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) **21.167.1 Penderfynodd y Bwrdd Iechyd** dderbyn yr adroddiad fel sicrwydd o gydymffurfiad â'r broses a'r gweithdrefnau deddfwriaethol.	
21.168 Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (Welsh Health Specialised Services Committee – WHSCC): Comisiynu Gwasanaethau Newydd yn y Dyfodol ar gyfer Canolbarth, De a Gorllewin Cymru **21.168.1 Penderfynodd y Bwrdd**: 1. Nodi penderfyniad y Cydbwyllgor ar 7 Medi 2021 yn cefnogi'r ceisiadau a dderbyniwyd gan Grŵp Gweithredol Cydweithredol Iechyd GIG Cymru (NHS Wales Health Collaborative Executive Group - CEG) yn gofyn bod WHSSC yn comisiynu Gwasanaethau Hepato-Pancreato-Biliari, MDT Carcinoma Cellog Hepato (HCC) ac yn datblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer llawfeddygaeth orthopedig pediatreg arbenigol; 2. Cymeradwyo dirprwyo'r cyfrifoldeb comisiynu gwasanaethau HPB a gwasanaethau MDT HCC, gyda'r adnoddau angenrheidiol wedi'u mapio i WHSSC; 3. Cymeradwyo bod WHSSC yn datblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer llawfeddygaeth orthopedig pediatreg arbenigol; a 4. Cymeradwyo dirprwyo comisiynu llawfeddygaeth orthopedig pediatreg i WHSSC, os ystyrir hynny'n briodol gan y Cyd-bwyllgor, ar ôl datblygu'r fanyleb gwasanaeth	
21.169 Diweddariad Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach **21.169.1** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol bapur a oedd yn rhoi gwybodaeth gyfredol i'r Bwrdd am ddiwygiad diweddaraf Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach – strategaeth a ddatblygwyd yn wreiddiol oddeutu tair blynedd yn ôl. Byddai'r diweddariad hefyd yn alinio'r Strategaeth â'r strategaeth genedlaethol Cymru Iachach. **21.169.2** Gofynnodd yr Is-gadeirydd sut y byddai Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach yn llywio strategaeth gwasanaethau clinigol neu'n cyd-fynd â hi, a sut y gellid sicrhau bod strategaethau eraill yn ei chefnogi. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol fod y cwestiwn yn tynnu sylw at drafodaeth	

gyfredol fyw ynghylch sut roedd gwahanol ddarnau o waith yn cyd-fynd, a'r angen i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ba waith oedd yn 'gynlluniau' a pha waith oedd yn 'strategaethau'. Adroddodd y byddai'n edrych ar drosi Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach yn naratif a oedd yn nodi sut y byddai'r sefydliad yn darparu ei wasanaethau clinigol. Byddai hyn wedyn yn gofyn am drafodaeth gydag aelodau'r Bwrdd ynghylch a oedd hyn wedyn yn 'strategaeth' gwasanaethau clinigol neu beidio. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod sesiwn Gweithdy Bwrdd wedi'i chynllunio i ddechrau'r sgwrs hon cyn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob elfen. **21.169.3** Awgrymodd Aelod Annibynnol y dylai'r adran ar themâu allweddol gynnwys iechyd y boblogaeth a gwaith ataliol. Addawodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol wneud hyn yn fwy eglur. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r trydydd sector yn bartneriaid allweddol wrth ymgysylltu. **21.169.4** Cadarnhaodd y Cadeirydd y gofynnir i un o'r Aelodau Annibynnol newydd a benodir gefnogi'r gwaith hwn sy'n gysylltiedig â'r trydydd sector fel blaenoriaeth. Eglurodd hefyd, fel rhan o drafodaethau Gweithdy'r Bwrdd, y byddai'n ceisio cael ymdeimlad clir o gyfeiriad er mwyn llywio cynllun tymor canolig y Bwrdd am y tair blynedd nesaf, ac wrth wneud hynny siapio dyfodol gwasanaethau clinigol a'r agenda drawsnewid. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol ei fod yn rhannu'r uchelgais hon. **21.169.5 Penderfynodd y Bwrdd** dderbyn y diweddariad ar y gwaith sydd ar y gweill i adnewyddu strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd - Byw'n Iach, Aros yn Iach.	CS
21.170 Diweddariad Gofal Heb ei Drefnu **21.170.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr eitem hon ar yr agenda gan atgoffa'r aelodau o'r pwysau sylweddol ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a achoswyd yn rhannol gan ddiffyg staff ond hefyd y cynnydd yn nifrifoldeb yr achosion sydd angen gofal. O ganlyniad, bu effaith ar welyau mynediad brys i feddygon teulu. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod camau ar y gweill i sicrhau fod y gwelyau hyn yn parhau i fod ar gael i feddygon teulu a chyfeirwyr uniongyrchol a fyddai hefyd yn lleihau nifer yr ymwelwyr ag Adrannau Brys. Adroddwyd bod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal gydag arweinwyr clinigol (gan gynnwys yr adrannau therapïau a nyrsio) i ystyried sut y gellir rhoi gwelliannau angenrheidiol yn eu lle a monitro eu heffaith. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod capasiti gwelyau hefyd wedi gostwng o ganlyniad i Covid ac roedd hyn yn effeithio ar berfformiad gofal heb ei drefnu. Roedd gwaith yn parhau gyda chydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol i sicrhau y gallai cleifion sy'n ffit yn feddygol gael eu rhyddhau i'w cartrefi neu eu cymunedau cyn gynted â phosibl. **21.170.2** Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd at bwysigrwydd cydnabod sut roedd iechyd y boblogaeth yn effeithio ar ofal heb ei drefnu, ac y dylid parhau i roi ffocws ar agweddau ataliol er mwyn cadw pobl gartref lle bo hynny'n briodol. Cyfeiriodd hefyd at flaenoriaethau a nodwyd gan y Gweinidog o amgylch yr agenda ataliol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gofal yn gyffredinol yn profi sefyllfaoedd heriol iawn a bod yr holl bartneriaid yn gweithio'n galed i ganfod atebion. Roedd yn cydnabod fod mynediad at gyllid grant perthnasol ond yn teimlo nad oedd hyn bob amser yn darparu datrysiad	

tymor hir a bod staff a chapasiti yn allweddol i sicrhau gwelliant. Cydnabu'r Cadeirydd fod angen ymdeimlad cryf o bartneriaeth i fynd i'r afael â'r pwysau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dymuno pwysleisio fod y cynllun gwella yn ddull system gyfan o weithredu, gan gynnwys gweithio gydag asiantaethau partner a mynd i'r afael â'r agenda ataliol. Roedd y Bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i ystyried cyfleoedd ar y cyd ac un maes ffocws cydweithredol fyddai ymateb i'r nifer uchel o gwympiadau gan gleifion. Yn ogystal, byddai gwaith o amgylch llwybrau delio â chyflyrau anadlol a phoen yn y frest yn gysylltiedig â meysydd asesu arosiadau byr. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ail-alinio'r llwybrau Mân Anafiadau, er mwyn sicrhau cysondeb. Yn olaf, ailadroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth mai darn o waith system gyfan oedd yma a bod bwriad cynyddol i gynnwys y cyhoedd a chleifion wrth wneud penderfyniadau. **21.170.3** Nododd yr Is-gadeirydd fod yr adroddiad yn nodi bod cyfran gynyddol o gleifion yn cael eu derbyn trwy'r Adrannau Brys, ond fod rhai clinigwyr wedi dweud bod cyfran o'r derbyniadau hyn yn deillio o'r ffaith nad oes llwybr arall ar gael i gleifion gael eu gweld yn gyflym. Gofynnodd a oedd y dadansoddiad a oedd yn cael ei gynnal yn cynnwys y rhesymau pam fod cleifion yn mynychu neu'n cael eu hanfon i mewn. Holodd yr Is-gadeirydd hefyd sut roedd y rhaglen wella yn cyd-fynd â gwaith gwella blaenorol, ac a oedd swyddogion yn hyderus y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud mewn pryd i gael effaith gadarnhaol ar bwysau'r gaeaf. Ychwanegodd yr Is-gadeirydd ei bod yn teimlo bod yr adroddiad a'r ffrydiau gwaith yn cynnwys ychydig iawn am ofal cychwynnol ac roedd angen dull system gyfan o weithredu o ystyried mai gofal cychwynnol oedd y pwynt cyswllt ar gyfer tua 80% o gleifion. *Ymunodd Dr Chris Subbe â'r cyfarfod a chrynhodd y Cadeirydd brif fyrdwn y cwestiynau y byddai Dr Subbe yn mynd i'r afael â hwy yn ei gyflwyniad cyffredinol o'r papur.* **21.170.4** Adroddodd yr Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu ei fod wedi bod yn ei swydd ers dechrau mis Gorffennaf a bod y ffocws cychwynnol ar y meysydd allweddol hynny lle credwyd y gellid gwneud cynnydd amserol ar draws pedwar llif gwaith. Roedd y llif gwaith cyntaf o gwmpas gwneud mwy yn y gymuned ac roedd yn amlwg o'r data bod cleifion yn symud o Unedau Mân Anafiadau (MIUs) i Ymyrraeth Adrannau Brys a nodwyd bod angen uwchsgilio a safoni ymarferwyr nyrsio brys, gan roi cefnogaeth yn ei le gan addysgwyr partner y Brifysgol i gyflawni hyn. Roedd lefel dda o gefnogaeth gan Adrannau Brys i fabwysiadu dull gweithio mwy cydweithredol. Roedd yr ail ffrwd gwaith yn ymwneud ag agweddau rhyngwynebu wrth gael mynediad i'r Adran Frys yn yr ysbyty, ac mae'r llwybrau gofal a chapasiti o fewn gofal brys wedi'u nodi fel heriau allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Roedd achos busnes wedi'i gyflwyno ar gyfer newidiadau mewn patrymau staffio er mwyn galluogi'r unedau i gymryd llawer mwy o gleifion. Y drydedd ffrwd waith oedd gofal cleifion mewnol ac roedd yn canolbwyntio ar sicrhau gweithio mwy effeithlon ac effeithiol ar draws timau'r wardiau a gweithredu rowndiau bwrdd yn cael ei nodi fel blaenoriaethau, gyda pheilotau yn eu lle ar y tri safle. Roedd wardiau a oedd yn rhan o'r gwaith peilot yn derbyn data wythnosol i'w galluogi i weld eu cynnydd a chymharu eu hunain â wardiau tebyg. Roedd y llif gwaith olaf yn ymwneud â chymorth cymunedol i gleifion wrth adael gofal, yn bennaf y rhai a oedd yn fregus ac angen cefnogaeth ychwanegol gydag agweddau ar eu bywyd dyddiol. Cydnabu'r Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu fod mwyafrif y gofal yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau gofal cychwynnol. Cadarnhaodd fod cynrychiolaeth briodol ar	

y tri llif gwaith perthnasol a bod y timau'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn gofal cychwynnol. Roedd yn cydnabod bod heriau capasiti ar draws pob rhan o'r system ac y byddai lle bob amser i ddarparu mwy o brosiectau sy'n gysylltiedig â gofal cychwynnol. Fodd bynnag, roedd y ffrydiau gwaith wedi nodi'r hyn y teimlwyd y gellid ei gyflawni yn y misoedd nesaf i fynd i'r afael â'r pwysau arbennig presennol. **21.170.5** Cytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol ei bod yn ymddangos bod y papur, ar yr olwg gyntaf, yn cynnwys ychydig iawn am ofal cychwynnol, ond awgrymodd, wrth symud tuag at ddod yn sefydliad mwy integredig, na fyddai gofal cychwynnol ac eilaidd bob amser yn cael eu cyfeirio atynt ar wahân o fewn papurau. Dywedodd fod timau'n hollol glir y byddai'r gwaith ar lwybrau gofal heb ei drefnu yn dilyn y fethodoleg y cytunwyd arni er mwyn trawsnewid tuag at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned. Ychwanegodd fod nifer o geisiadau wedi'u derbyn gan gydweithwyr gofal cychwynnol er mwyn gallu cyfrannu at y gwaith o wella gofal heb ei drefnu. Sicrhaodd y Bwrdd fod ymgysylltiad da gyda'r gwasanaethau gofal cychwynnol. **21.170.6** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth mai'r egwyddor o amgylch yr achos busnes oedd symud a chefnogi cleifion yn gyflym adref heb fod angen iddynt fod wedi mynd trwy'r Adrannau Brys, a gweithio ar yr egwyddor o gyfeirio cleifion at y gofal iawn a'r clinigwr cywir. Byddai egwyddor Gofal Brys yr Un Diwrnod (Same Day Emergency Care -SDEC) yn arwain at amcangyfrif o 30% o weithgareddau'r Adran Frys yn mynd yn syth i'r Ganolfan SDEC, a byddai hynny'n lleddfu tagfeydd yn sylweddol. Cadarnhaodd hefyd fod y Tîm Gweithredol wedi trafod y cynnydd gofynnol yng nghapasiti'r gweithlu yn yr Adran Frys a bod peth recriwtio eisoes wedi digwydd er mwyn cyflawni hyn. **21.170.7** Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at Lif Gwaith 4 o amgylch camu i lawr i'r gymuned, a gofyn sut y byddai'r dull newydd hwn yn wahanol i gynigion blaenorol ynghylch Gofal Agosach at Gartref. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol, fod y darpariaethau gofal iechyd yn gweithio mewn amseroedd anarferol, ond er hynny byddai'r timau wrth gwrs yn gwneud eu gorau glas i gyflawni'r nodau tra'n cydnabod hefyd pa mor flinedig oedd y gweithlu yn gyffredinol. Yn bersonol, roedd yn teimlo bod angen canolbwyntio ar bethau y gallai pawb wneud cyfraniad tuag atynt, ond nid oedd yn hyderus y byddai effaith fawr o fewn amser byr. Nododd y Cadeirydd fod y sylwadau hyn yn amlwg o ddiddordeb a phryder i'r Bwrdd a dywedodd unwaith yn rhagor y byddai'r aelodau am gefnogi'r Weithrediaeth a thimau ehangach mewn unrhyw ffordd y gallent. **21.170.8** Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch y sefyllfa o ran y cynllun gaeaf / tymhorol a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod cynllun yn cael ei baratoi gyda phartneriaid ar sail yr un egwyddorion, ac y byddai'n cyd-fynd â chynlluniau gofal heb ei drefnu gan ystyried heriau'r gweithlu. Fe ymrwymodd i gadarnhau amserlen ar gyfer derbyn cynllun y gaeaf y tu allan i'r cyfarfod. Ymatebodd hefyd i gwestiwn ynghylch metrigau a bod bwriad i weithio gyda'r timau cyllid a pherfformiad i sicrhau bod metrigau ar gyfer gofal heb ei drefnu yn cael eu datblygu a'u bod ar gael i'r Bwrdd.	GH

21.170.9 Penderfynwyd bod y Bwrdd yn nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar ddatblygiad y Rhaglen Waith Gofal Brys ac Argyfwng. *[Gadawodd Dr Chris Subbe y cyfarfod]*	
21.171 Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio: Cynllun Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030 *[Ymunodd Mr Rod Taylor â'r cyfarfod]* **21.171.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau'r papur hwn, gan dynnu sylw at y ffaith fod gwaith ategol sylweddol ar yr agenda datgarboneiddio eisoes wedi digwydd yn ymwneud â materion cyfalaf ac ystadau, a bellach fod hyn yn cael ei ymestyn i gyd-destun y cynllun datgarboneiddio. Cyfeiriodd at sesiwn Gweithdy Bwrdd a oedd wedi ystyried materion blaenoriaethu ac arweinyddiaeth ar gyfer y rhaglen, cysylltiadau llywodraethu â chynlluniau strategol eraill ac yn bwysicaf oll cysylltiadau o ran ymgysylltu â staff. Adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth Garbon wedi'i phenodi i gefnogi'r Bwrdd gyda'r gwaith hwn a bod nifer o raglenni ar y gweill. Yn ogystal, roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Ystadau Arbenigol a'r Grŵp Gwyrdd lleol i ddatblygu cynlluniau. **21.171.2** Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig cytuno ar lwybrau llywodraethu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer y rhaglen waith hon. Cadarnhawyd mai'r Cyfarwyddwr Gweithredol arweiniol oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r pwyllgor cyfrifol fyddai'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth. Croesawyd cynnig y Cadeirydd i ddarparu hyrwyddwr o blith yr Aelodau Annibynnol. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cerrig milltir cyflenwi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau y byddai cynllun wedi'i gostio erbyn mis Rhagfyr gyda llinellau amser i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. **21.171.3** Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod y diweddariad yn cael ei groesawu, gan gydnabod bod hwn yn faes gwaith â blaenoriaeth i gydweithwyr a phartneriaid iechyd cyhoeddus ledled Gogledd Cymru. Cyfeiriodd at yr elfen Teithio Gweithredol (Active Travel) a nododd fod gwaith eisoes wedi cychwyn ar hyn. **21.171.4** Gofynnodd y Cadeirydd a ddaethpwyd i benderfyniad ynghylch gwerth sefydliadol ychwanegol “Amddiffyn Dyfodol ein Plant”. Nododd y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau fod Gweithdy'r Bwrdd wedi nodi bwlch mewn gwerthoedd sefydliadol o ran yr amgylchedd, a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y byddai'r mater hwn yn cael sylw trwy gyd-ddylunio’r cam darganfod yn Mewn Undod Mae Nerth. **21.171.5 Penderfynodd y Bwrdd**: 1. Nodi cyhoeddi Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021 a'r gofyniad i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru ddatblygu cynlluniau datgarboneiddio pum mlynedd. 2. Nodi penodiad yr Ymddiriedolaeth Garbon i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu cynllun datgarboneiddio pum mlynedd pwrpasol mewn ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.	

3. Cefnogi sefydlu bwrdd rhaglen cynaliadwyedd a datgarboneiddio dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid i symud ymlaen â'r agenda a'r rhaglen fel y caiff ei nodi yn y Cynllun Cyflenwi Strategol ac i gydlynu ymateb sefydliadol ehangach a chynhwysol i gyflawni targedau cynaliadwyedd a datgarboneiddio Llywodraeth Cymru erbyn 2030.	
21.172 Llety Preswyl - cynnig i symud i fodel gwasanaeth a reolir **21.172.1** Amlygodd y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau mai'r pwynt allweddol oedd bod y Bwrdd yn symud i ffwrdd o geisio datrysiad cyfalaf, i fodel gwasanaeth a reolir, a bod y rhesymeg wedi'i nodi yn y papur. Roedd yr her o ran gallu'r sefydliad i gynnig llety fforddiadwy, addas yn parhau. Nodwyd bod hyn yn allweddol wrth geisio recriwtio a chadw staff yn llwyddiannus. **21.172.2** Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod y papur wedi cael cefnogaeth mewn cyfarfod diweddar a bu pryder ers amser maith am gyflwr gwael yr ystâd llety. **21.172.3 Penderfynodd y Bwrdd Iechyd**: 1. Gymeradwyo'r cynnig caffael ar gyfer model llety preswyl ar ffurf gwasanaeth a reolir fel y manylir yn yr adroddiad hwn. 2. Nodi'r cyfleoedd parhaus i weithio ar y cyd â darparwyr tai cymdeithasol lleol i ddatblygu'r fanyleb gwasanaeth. *[Gadawodd Rod Taylor y cyfarfod]*	
21.173 Adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor a'r Grŵp Cynghori **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 6.7.21 a 7.9.21** **21.173.1** Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor fod gweithdy hefyd wedi'i gynnal ym mis Awst i ystyried materion yn ymwneud â sicrwydd ac adroddiadau pwyllgor. Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at bryderon parhaus ynghylch diffyg cynnydd o ran gwasanaethau fasgwlaidd a bod grŵp goruchwylio newydd i gael ei Gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sydd newydd gael ei benodi. Nodwyd hefyd bod y Pwyllgor wedi cefnogi comisiynu adolygiad Coleg Brenhinol o wasanaethau wroleg, a gofynnodd y Cadeirydd i'r cylch gorchwyl gael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd a bod diweddariad cynnydd yn cael ei ddarparu i gyfarfod nesaf y Bwrdd. **21.173.2** Hysbyswyd y Bwrdd gan Gadeirydd y Pwyllgor fod y Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiad eithriad (exception report) cynhwysfawr ar gynnydd yn erbyn lleihau risgiau crogi mewn lleoliadau gofal iechyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Esboniodd y diweddariad y gwahaniaeth rhwng y gwaith hwn a gwaith cynharach, gan fod y ffocws blaenorol ar bwyntiau crogi lefel uchel tra bod y rhaglen gyfredol hefyd yn ymdrin â phwyntiau crogi isel. **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 26.8.21** **21.173.3** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith bod y	GH

Bwrdd yn parhau mewn sefyllfa ariannol gytbwys, ond fod rhai pryderon yn parhau ynghylch cyflawni arbedion. Arhosodd gwariant cyfalaf ar y trywydd cywir ac roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o risgiau ariannol allweddol yn ymwneud â gofal wedi'i gynllunio, recriwtio, oedi llawfeddygaeth robotig a materion llif / rhyddhau cleifion. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod y dyfarniad contract bellach wedi'i wneud ar gyfer llawfeddygaeth robotig felly byddai hyn yn cael ei symud yn ei flaen. **Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 22.7.21 a 17.8.21** **21.173.4** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y risgiau allweddol ac unrhyw faterion i'w huchafu i'r Bwrdd fel y bo'n briodol. **Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 12.8.21** **21.173.5** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad gan dynnu sylw at ehangder yr agenda. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi bod yn falch o dderbyn Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ac adroddiad ar ddatblygiad yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd. O ran risgiau allweddol, nododd y Pwyllgor fod y rhain yn parhau i fod yn gyson o ran eu themâu ac yn ymwneud â recriwtio, gofal wedi'i gynllunio, ac agwedd fwy strategol tuag at fynediad at ofal cychwynnol. **Fforwm Partneriaeth Leol 26.7.21** **21.173.6** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y risgiau allweddol ac unrhyw faterion i'w huchafu i'r Bwrdd fel sy'n briodol. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y mater o oedi gyda recriwtio wedi'i ddatrys ac adroddwyd bod gwelliannau bellach i'w gweld yn dilyn adolygiad cydweithredol.	
21.174 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad **21.174.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad gan ddweud fod nifer o'r meysydd a nodir eisoes wedi'u cynnwys mewn eitemau blaenorol ar yr agenda (ee gofal heb ei drefnu, atal heintiau). Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol at berfformiad parthed gwariant ar asiantaethau, ac awgrymodd fod angen ystyried hyn fel rhan o ddarparu gwasanaethau o safon, ac nid yn unig o safbwynt ariannol. Cadarnhaodd fod cyfarfodydd wythnosol i drafod adnoddau meddygol newydd gael eu sefydlu ond rhybuddiodd na fyddai modd osgoi rhywfaint o ddibyniaeth o hyd ar asiantaethau. Awgrymodd yr Aelod Annibynnol (Prifysgol) y gallai anghenion hyfforddi fod yn faes posibl i'w archwilio rhwng y Bwrdd Iechyd a Phrifysgol Bangor. **21.174.2** Aeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ymlaen i ddisgrifio'r ystod o waith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau i ofal a gynlluniwyd gan gynnwys datblygu Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol, comisiynu gwaith allanoli, gwneud y defnydd gorau o safleoedd 'gwyrdd' Covid ynghyd â blaenoriaethu triniaeth gofal wedi'i gynllunio ar sail cleifion unigol. Cydnabuwyd pa mor drallodus oedd hyn i gleifion ond hefyd yr effaith ar forâl staff. **21.174.3** Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod y Pwyllgor wedi craffu ar gynnwys yr adroddiad ac yn dymuno cydnabod bod meysydd cadarnhaol i'w nodi hefyd - er enghraifft perfformiad cyfraddau brechu a gwelliannau mewn amseroedd	

ymateb i gwynion. Cyfeiriodd at gynnydd sylweddol yr adroddwyd arno ar gyfer ffigyrau mynediad at therapïau seicolegol a gofynnodd a oedd hyn o ganlyniad i fentrau rhestrau aros (waiting list initiatives -WLIs) neu'n debygol o fod yn welliant mwy cynaliadwy. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd mai canlyniad mentrau rhestrau aros oedd hwn yn bennaf ond fod y timau'n parhau i weithio'n galed i wella'r ffigurau yn y tymor hwy. Mynegodd Aelod Annibynnol bryder ynghylch perfformiad gwael parhaus mewn perthynas â phlant yn aros am asesiad niwroddatblygiadol. **21.174.4 Penderfynwyd bod y Bwrdd Iechyd** yn craffu ar gynnwys yr adroddiad.	
21.175 Adroddiad Cynnydd – Monitro'r Cynllun Gweithredol **21.175.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid - Comisiynu a Chynllunio Ariannol Strategol yr adroddiad gan dynnu sylw at y themâu a gaiff eu hamlygu parthed methiannau i gyflawni yn erbyn y cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys staffio, llithriad cyffredinol amserlenni a materion yn ymwneud â datblygu achosion busnes. **21.175.2** Cydnabu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad y gwelliannau a wnaed i'r adroddiad hwn, ond fod rhai bylchau mewn sicrwydd a thystiolaeth yn parhau. Ailadroddodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE ei phryderon nad oedd yr adroddiad yn ei fformat presennol yn galluogi'r Bwrdd i fesur cynnydd yn erbyn camau blaenoriaeth a oedd yn sail i gyflawni'r cynllun. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Cyllid - Comisiynu a Chynllunio Ariannol Strategol hyn gan roi sicrwydd i'r aelodau y byddai eu pryderon yn cael sylw. Gofynnodd y Cadeirydd iddo weithio gyda'r Cadeiryddion Pwyllgor perthnasol i ymateb i'w pryderon ynghylch adrodd ac i ystyried trafodaethau diweddar ynghylch a ddylai'r Bwrdd fod yn derbyn adroddiad penodol a oedd yn adlewyrchu cynnydd yn fwy amserol. **21.175.3** Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fod yn rhaid i'r cylch adrodd gael ei gwblhau ac felly paratowyd yr adroddiad. Fodd bynnag, nodwyd yr adborth a roddwyd. Nodwyd hefyd y byddai prosesau cynllunio yn derbyn adborth o fewn cam darganfod Mewn Undod Mae Nerth, ac felly byddai hyn hefyd yn gyfle i wella. Roedd yn ogystal am achub ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith fod y gwaith datblygu sefydliadol strategol yn dod yn ei flaen yn dda iawn gyda lefel dda o ymgysylltiad parhaus. **21.175.34 Penderfynwyd bod y Bwrdd Iechyd** yn craffu ar gynnwys yr adroddiad.	RN
21.176 Adroddiad Cyllid Mis 4 **21.176.1 Penderfynwyd nodi cynnwys** yr adroddiad.	
21.177 Adroddiad Mis Cyllid 5 **21.177.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid - Comisiynu a Chynllunio Ariannol Strategol yr adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith fod cynllun ariannol diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a oedd yn rhagweld sefyllfa gytbwys ar gyfer 2021-22; adlewyrchwyd y sefyllfa hon ym mherfformiad y flwyddyn hyd yma. Nodwyd her barhaus gan fod yr arbedion ar hyn o bryd yn £12.1m yn erbyn targed o £17m. Dywedwyd bod angen alinio cynlluniau arbedion yn llawn â'r rhaglen drawsnewid gan fod llawer o'r cynlluniau cyfredol yn ang-nghylchol. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid - Comisiynu a Chynllunio	

Ariannol Strategol y byddai'r rhagdybiaethau cynllunio ynghylch y gefnogaeth strategol i adfer gofal wedi'i gynllunio yn cael eu hadolygu ym Mis 6 i sicrhau bod y gwerth mwyaf posibl yn cael ei gyflawni. **21.177.2** Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad bryder ynghylch yr elfen arbedion ang-nghylchol ac awgrymodd y dylid ailsefydlu'r dull blaenorol o nodi arbedion 'yn y bibell' i ddarparu cynllun cynilo tymor hwy. Ychwanegodd y Cadeirydd na fyddai'r Bwrdd yn gallu cytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig heb gael rhaglen arbedion y cytunwyd arni i sicrhau y gellid sefyllfa gytbwys. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid - Comisiynu a Chynllunio Ariannol Strategol yn cydnabod y pwyntiau hyn ond hefyd yn nodi fod effaith barhaus Covid yn golygu ei bod yn hynod o heriol i wasanaethau sicrhau arbedion ar hyn o bryd. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at yr angen i weithio o fewn yr amlen ariannol, a nododd fod sgyrsiau diweddar gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi nodi'r gofyniad ar Fyrddau Iechyd i gynnal disgyblaeth adennill costau wrth symud tuag at gylch cynllunio tymor hwy, gan sicrhau nad oedd ffocws ariannol tymor byr yn atal buddsoddiad strategol tymor hir. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod y Gweinidog wedi nodi wrth Gadeiryddion y Bwrdd Iechyd y dylent ystyried cael cynlluniau pellach yn barod i fynd pe bai cyllid ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Derbyniodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod arbedion yn gysylltiedig â thrawsnewid ond gofynnodd am sicrwydd bod proses gadarn i sicrhau gweledededd a hyder mewn cynlluniau cynilo. Addawodd y Prif Weithredwr ystyried gyda chydweithwyr y ffordd orau o roi'r sicrwydd hwn i Aelodau Annibynnol. **21.177.3 Penderfynwyd nodi cynnwys** yr adroddiad.	JW SH
21.178 Diweddariad Grŵp Llywio Fasgwlaidd **21.178.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr adroddiad. Roedd yn dymuno egluro nad oedd unrhyw fwriad i newid y model gwasanaeth y cytunwyd arno o'r blaen. Roedd yn cydnabod fod y trafodaethau parhaus am ansawdd y gwasanaeth a phrofiad y claf yn bwysig iawn ond roedd hefyd yn rhaid ystyried yr effaith ar staff. Cadarnhaodd ei fod wedi dewis peidio â rhannu cynllun gweithredu ar hyn o bryd gan ei fod wedi gofyn am waith pellach i egluro'r gweithredoedd, y berchnogaeth a'r camau lliniaru dros dro er mwyn cynnal ansawdd a diogelwch yn y tymor byr. Ei fwriad oedd rhannu cynllun gweithredu wedi'i adnewyddu gyda'r Pwyllgor QSE ym mis Tachwedd. Byddai'r cynllun gweithredu hwn yn ymgorffori gweithredoedd y cytunwyd arnynt yn flaenorol ond hefyd rhai camau newydd a godwyd yn fwy diweddar gan y gwasanaeth. Adroddodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod y grŵp llywio fasgwlaidd wedi mabwysiadu rhai newidiadau i'r dull o adrodd gan gynnwys prosesau uwchgyfeirio ar gyfer achosion lle na ddilynwyd y model gwasanaeth. Byddai'r grŵp yn adolygu'r sefydliad o ran y gweithlu meddygol a nyrsio i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r sefyllfa mewn perthynas â recriwtio a'r gallu i staffio'r safleoedd 'hwb a sbôc' yn ddiogel. Yn olaf, adroddodd fod Grŵp Goruchwylio Fasgwlaidd (Vascular Oversight Group - VOG) bellach yn cwrdd bob pythefnos i sicrhau perchnogaeth a chyflymder wrth gyflawni gweithredoedd. **21.178.2** Nododd y Cadeirydd y pryder yn adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor QSE fod angen llawer mwy o waith ar y cynllun gweithredu er mwyn rhoi sicrwydd. Gofynnodd beth oedd wedi arwain at y casgliad hwn, o gofio bod y Bwrdd wedi cael sicrwydd o'r blaen fod gwaith sylweddol wedi'i wneud i'w ddatblygu. Awgrymodd y Cyfarwyddwr	

Meddygol Gweithredol y gallai llawer o'r gweithredoedd fod ar y gweill ond roedd yn teimlo y gellid cryfhau'r eglurder o ran sut y cawsant eu mynegi, ynghyd â pherchnogaeth ac amseroldeb y gweithredoedd. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y datganiad yn y papur “y bydd Cyfarwyddwr Acíwt yr hwb yn sicrhau bod trefniadau ‘hwb a sbôc’ ac yn cael eu gweithredu’n briodol mewn cysylltiad â’r ddau safle Acíwt a’r timau Ardal lle bo’n briodol”. Atgoffodd y Bwrdd nad oedd hyn wedi'i ddatrys hyd yma ac mae'n debyg ei fod yn her i'r unigolion hynny ei gyflawni. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod y mater hwn wedi bod yn her ers cryn amser a rhagwelodd y byddai cyfarfodydd pythefnosol y VOG yn cynorthwyo i ddeall yn gyflym ble mae trafferthion a sicrhau bod cynnydd a chyfathrebu rhwng yr hwb a’r sbociau yn effeithiol. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr aelodau, pe byddai tagfeydd (blockages) mewn perthynas â rheoli cleifion, y byddai'r rhain yn cael eu huwchraddio o gyfarfodydd lleol i sicrhau goruchwyliaeth. Cytunwyd hefyd fod angen cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda hon, ac ni allai hyn fod yn gyfrifoldeb ar yr hwb yn unig. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig cael eglurder ynghylch cyfrifoldebau’r hwb (Ysbyty Glan Clwyd) i'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd, ac o amgylch y cyfrifoldebau oedd gan reolwyr safle dros ddarparu gwasanaethau priodol ar eu safleoedd. Awgrymodd y dylid adolygu'r broses benderfynu er mwyn rhoi'r sicrwydd hwn. **21.178.3** Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE rwystredigaeth fod pryderon amlwg ynghylch gwasanaethau fasgwlaidd ers cryn amser a chred fod rhywfaint o gynnydd yn cael ei golli bob tro y byddai newid mewn arweinyddiaeth. Teimlai fod yr aelodau hyd yma wedi cael cysur yn hytrach na sicrwydd a bod sicrwydd ar sail tystiolaeth yn hanfodol er mwyn i’r Bwrdd allu rhoi hyder i'r cyhoedd a chleifion yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol mai un elfen wrth ailedrych ar y cynllun gweithredu fyddai sicrhau ei fod yn fwy seiliedig ar dystiolaeth. Derbyniodd y pwynt am gyflymder y gwaith a nododd ei fwriad i sicrhau mwy o atebolrwydd. **21.178.4 Penderfynwyd bod y Bwrdd** yn derbyn y diweddariad gan y Grŵp Llywio Fasgwlaidd ac yn nodi'r diweddariad i’r dull o ymateb i gam cyntaf adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ar y Gwasanaeth Llawfeddygaeth Fasgwlaidd.	NL LB
21.179 Adroddiad Adolygiad o Achosion Covid-19 yn Ysbyty Gwynedd **21.179.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y papur a chadarnhaodd hefyd fod y papur wedi ei graffu yn y Pwyllgor QSE diwethaf. Roedd hi'n dymuno tynnu sylw at y gwaith a oedd yn parhau i ddigwydd i sicrhau fod gan bob adeilad drefniadau rheoli atal heintiau (infection prevention control - IPC) cadarn ac effeithiol yn eu lle tra’n cydnabod bod staff wedi ymlâdd ac y byddai hyn yn anochel yn cael effaith ar y gwaith - er enghraifft wrth gwblhau archwiliadau IPC. Dywedodd fod y rhaglen Gofal Glân Diogel (Safe Clean Care - SCC) yn cael ei chynnal a'i bod wedi arwain at wreiddio rheolaethau IPC yn well a chryfhau’r gynrychiolaeth glinigol. Roedd y pwysau gofal heb ei drefnu yn parhau i ychwanegu lefel o bryder ac roedd asesiadau deinamig awr wrth awr yn cael eu cynnal mewn ymateb i’r pryder hwn. Roedd bylchau yn y staff domestig yn cael eu cau ond roedd heriau recriwtio yn parhau’n fwy cyffredinol. O ran yr adroddiad adolygiad annibynnol allanol, roedd yr ymatebion uniongyrchol i'r gwersi a ddysgwyd wedi'u cynnwys fel atodiad a byddai unrhyw fylchau yn cael sylw trwy'r rhaglen Gofal Glân Diogel (SCC).	

21.179.2 Croesawodd y Cadeirydd y papur a oedd, yn ei farn ef, yn fwy addas at y diben nag ailadroddiadau blaenorol ac yn ymateb i gylch gorchwyl yr adolygiad gydag argymhellion clir. Nododd nad oedd unrhyw linellau amser yn erbyn yr argymhellion ond roedd yn disgwyl i'r Tîm Gweithredol ymateb i hynny. Nododd fod yn rhaid i'r Bwrdd barhau i geisio lleihau'r tebygolrwydd o achosion pellach trwy gyflawni'r rhaglen Gofal Glân Diogel (SCC) a thrwy waith yr Is-grŵp Atal Heintiau Strategol. **21.179.3 Penderfynwyd bod y Bwrdd** yn derbyn cynnwys yr adroddiad, y canfyddiadau a'r argymhellion dilynol. Gofynnir iddo hefyd dderbyn yr adroddiadau cynnydd yn erbyn pob un o'r camau gweithredu a'r diweddariad yn erbyn y rhaglen wella Gofal Glân Diogel (SCC).	
21.180 Adroddiad Blynyddol Tairochrog ar y Lefelau Staff Nyrsio **21.180.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad a oedd eisoes wedi bod trwy'r Pwyllgor QSE. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y gwaith yn ymwneud ag ymestyn y Ddeddf o dan Adran 25b i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatreg acíwt. Cadarnhawyd fod yr holl wardiau priodol wedi'u hadnabod, bod polisïau uwchgyfeirio a chynlluniau parhad busnes wedi'u hadolygu ac roeddent bellach yn cynnwys camau i gynnal lefelau staffio yn y wardiau hynny. Roedd systemau yn eu lle i gofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd yn lleol ac i gofnodi'r camau a gymerwyd. Roedd prosesau ar waith hefyd i adolygu ac ail-gyfrifo'r lefelau staff nyrsio bob chwe mis gan ddefnyddio templed y cytunwyd arno yn genedlaethol, a oedd hefyd yn darparu elfen Cwestiynau Cyffredin (FAQ) i gleifion. Bydd y lefel staff Nyrsio yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol gan ddefnyddio'r templed adrodd cenedlaethol wedi'i alinio â'r adroddiad staffio ar gyfer Nyrsys Oedolion sy'n Gleifion Mewnol. Cytunwyd yn genedlaethol ar y templed ar gyfer dangos Lefelau Staffio Nyrsys Pediatreg a bydd yn cael ei ddefnyddio ar bob ward bediatreg o Hydref 2021. Yn olaf, adroddwyd bod nifer y myfyrwyr wedi cynyddu fel paratoad ac, o ystyried recriwtio ychwanegol, rhagwelwyd y byddai'r gofynion yn cael eu diwallu erbyn hydref 2022, er y cydnabyddir y bydd oedi. **21.180.2 Penderfynwyd fod y Bwrdd yn:** 1. Nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru tair blynyddol ar Staff Nyrsio gyda diweddariadau o ymchwiliadau caeedig ar gyfer y cyfnod adrodd 2020/21. 2. Parhau i gefnogi'r mentrau recriwtio a chadw parhaus sydd eisoes ar y gweill. 3. Nodi fod y gofynion pediatreg i gwrdd â diwygiadau Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) yn amodol ar adroddiad ac achos busnes ar wahân unwaith y bydd adolygiadau tairochrog wedi'u cwblhau.	
21.181 Asesiad Anghenion Fferyllol (Pharmaceutical Needs Assessment - PNA) **21.181.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad, gan atgoffa aelodau y byddent eisoes wedi gweld y PNA drafft. Cadarnhaodd fod ymgynghori ffurfiol bellach wedi cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a bod ymatebion wedi helpu i adnabod rhai bylchau yn y ddarpariaeth a gofynion posibl yn y dyfodol. Bellach roedd yn ofynnol i'r Bwrdd gyhoeddi'r PNA yn ffurfiol ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd nesaf.	

21.181.2 Yn achos y bylchau posibl yr oedd y PNA wedi eu hadnabod, holodd y Cadeirydd a fyddai'r rhain yn ffurfio rhan o brosesau'r cynllunio'r Bwrdd - a chadarnhawyd y byddent, a bod proses ar waith i sicrhau fod hyn yn digwydd.

21.181.23 Penderfynwyd fod y Bwrdd:
1. Yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y PNA drafft;
2. Ystyried a chymeradwyo'r bylchau a nodwyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
3. Cymeradwyo cyhoeddi diweddariad y ddogfen PNA erbyn 1 Hydref 2021.

21.182 Achos Busnes Amlinellol Uned Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn Ysbyty Glan Clwyd
[Ymunodd Ian Howard, Mike Smith ac Iain Wilkie â'r cyfarfod]

21.182.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd bapur a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer yr achos busnes gyda'r nod o wella ansawdd gofal cleifion, a chefnogi trawsnewid y gwasanaeth, trwy ddatblygu Uned Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn newydd yn Glan Ysbyty Clwyd. Byddai'r Uned yn disodli'r Uned Ablett bresennol yn Ysbyty Glan Clwyd, a'r cyfleuster cleifion mewnol Iechyd Meddwl Pobl Hŷn ym Mryn Hesketh, ar gost gyfalaf o £67.7 miliwn. Eglurwyd fod yr achos busnes yn ceisio cymryd golwg gyfannol ar iechyd a lles meddyliol a chyflawni yn erbyn amcanion allweddol, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaethau sy'n cwrdd â'r Cyfarwyddyd Strategol a amlinellir yn Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl (Together for Mental Health - T4MH) yng Ngogledd Cymru a darparu'r model gofal a ddatblygwyd trwy'r grwpiau ansawdd a gweithlu.
- Creu amgylchedd clinigol o ansawdd sy'n addas at y diben, yn ddiogel ac yn drugarog.
- Gwella recriwtio, cadw'r gweithlu ac absenoldebau trwy ddarparu amgylchedd sy'n cefnogi staff i ddarparu gofal diogel, effeithiol i gleifion, gofalwyr a theuluoedd.
- Gwella ansawdd yr ystâd trwy leihau gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, lleihau costau rhedeg, a chyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol
- Hyblygrwydd: cyflawni ymateb hyblyg i anghenion y dyfodol - dylid cynllunio'r datrysiadau i ymateb i newidiadau yn y dyfodol wrth ddarparu gwasanaethau.

21.182.2 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor QSE fod tystiolaeth yn awgrymu y dylid lleihau gwelyau cleifion mewnol iechyd meddwl a gofynnodd am sicrwydd bod yr agwedd hon wedi'i hystyried yn briodol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod modelu gwelyau wedi cael ei wneud yn ofalus ac nad oedd yn ymwybodol bod Byrddau Iechyd eraill wedi lleihau eu niferoedd, er y byddai hyn yn amlwg yn parhau i fod yn gyfle yn y tymor hwy. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro fod nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal yn gostwng, a bod angen i nifer y gwelyau yng Ngogledd Cymru allu ymdopi â'r galw hwnnw. Roedd Aelod Annibynnol yn dymuno cefnogi gostyngiad mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal.

21.182.3 Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE wedyn at heriau gyda phlant a phobl ifanc o ran trosglwyddo i wasanaethau oedolion, a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod hyn wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r achos busnes.

Ychwanegodd y byddai'r uned newydd arfaethedig yn canolbwyntio ar agwedd fwy cyfannol a chymunedol gyda'r bwriad o gynyddu cysylltiadau â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). **21.182.4** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y posibilrwydd o wneud newidiadau yn ysod gwahanol gamau'r broses o greu achos busnes, cadarnhawyd bod y cysyniad ar y cam paratoi'r Achos Amlinellol Strategol ar hyn o bryd. Caiff wedyn ei gadarnhau yn yr Achos Busnes Amlinellol pan benderfynir ar yr opsiwn a ffafrir. Yn y cam olaf o baratoi'r Achos Busnes Llawn y bydd y gwaith dylunio manwl a'r costau terfynol yn digwydd. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod y dystiolaeth ynghylch modelu gwelyau wedi'i gwirio'n drylwyr ac y gallai gwrdd ag anghenion gwahanol posibl yn y dyfodol. **21.182.5** Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at ddatblygu gwasanaeth Haen 4 yn y gymuned a bod trafodaethau wedi cychwyn ynghylch datrysiadau ac adeiladu posibl yn Abergele ar gyfer CAMHS a'r gallu i ddarparu gwasanaeth Haen 4 yno. **21.182.6** Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol ar y safle. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Dadansoddi Strategol a Busnes fod adroddiad annibynnol wedi'i baratoi ynghylch y newid lleoliad a'i fod yn hyderus iawn y byddai'r cais cynllunio y tro hwn yn llwyddiannus. **21.182.7 Penderfynodd y Bwrdd** gymeradwyo'r Achos Busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. *[Gadawodd Ian Howard, Mike Smith ac Iain Wilkie y cyfarfod]*	
21.183 Cyflenwi Gwasanaethau Awdioleg Gofal Sylfaenol **21.183.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol y papur gan nodi fod hwn yn ddarn o waith arbennig o gadarnhaol o ran y buddion cysylltiedig ag ehangu gofal awdioleg o fewn gofal cychwynnol, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth rheoli cwyr clust. Cadarnhawyd bod y papur wedi bod trwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'i fod yn faes blaenoriaeth wedi'i alinio â chynlluniau strategol ac ariannol. **21.183.2** Ychawanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd ei gefnogaeth i'r papur gan ddatgan fod datblygiad y gwasanaeth yn gyffrous iawn a bod rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn gwylio gyda diddordeb. **21.183.3** Holodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE ble y byddai'r gwasanaeth wedi'i leoli'n gorfforol a chadarnhawyd y byddai hyn fel rheol o fewn adeilad gofal cychwynnol, ond pe na bai hyn yn bosibl neu'n briodol yna byddai cyfleusterau cymunedol eraill yn cael eu canfod. Yna gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE a fyddai gwasanaeth a gomisiynwyd yn fwy cynaliadwy o ran recriwtio. Atebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol fod opsiwn Stryd Fawr wedi'i ystyried ond daethpwyd i'r casgliad fod y rhaglen awdioleg arfaethedig yn cynnig mwy o wytnwch. **21.183.4** Holodd y Cadeirydd am y cyfrifoldeb dros wireddu'r buddion a chadarnhawyd fod y timau gweithredol yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o sicrhau llwyddiant y rhaglen	

a chyflawni gwelliannau, ac y byddent yn cael eu cefnogi gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni. **21.183.5** Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at heriau recriwtio staff dwyieithog, gan nodi y byddai plant a phobl hŷn yn defnyddio'r gwasanaeth yma'n arbennig. Derbyniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol y byddai heriau heb os, yn enwedig ar gyfer y swyddi mwy arbenigol, fel sy'n wir mewn meysydd eraill yn y maes gofal cychwynnol. Cytunodd y dylid ystyried y pryder hwn ymhellach gyda'r timau perthnasol. **21.183.6 Penderfynodd y Bwrdd** gymeradwyo gweithredu'r Gwasanaeth Awdioleg Gofal Cychwynnol Iedled Gogledd Cymru, fel y'i disgrifir yng nghynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/22.	CS
21.184 Adroddiad Blynyddol Diogelu *[Ymunodd Michelle Denwood â'r cyfarfod]* **21.184.1** Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cysylltiol - Diogelu gan dynnu sylw at y ffaith fod manylion ategol wedi'u cynnwys yn y tri atodiad allweddol. Nododd fod mwy o weithgaredd ac achosion mwy cymhleth ers dechrau'r pandemig, a bod y sefydliad wedi gweithio'n gyflym ac effeithiol i sicrhau fod prosesau priodol yn eu lle i gynnal gwasanaeth diogel. Yn ogystal â hyn, roedd ymgysylltu mewn dull aml-asiantaethol wedi parhau ar lefel 100% ar draws yr holl weithgareddau, ac roedd hynny'n glodwiw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cysylltiol - Diogelu fod pryderon yn wreiddiol am y gostyngiad mewn adroddiadau gan bob asiantaeth ond roedd lefelau wedi'u cynnal, ac mewn rhai ardaloedd wedi cynyddu, yng Ngogledd Cymru. Awgrymodd fod y gweithgaredd archwilio yn darparu sicrwydd a thystiolaeth o welliannau, yn enwedig mewn perthynas â'r agenda cam-drin a niwed domestig, lle defnyddiwyd gwahanol ffyrdd i dargedu grwpiau agored i niwed. Yn olaf, nodwyd fod adnoddau yn parhau i fod yn her allweddol i'r Tîm Diogelu a bod y newidiadau i fesurau diogelwch a rhyddid sydd ar y gweill wedi'u hadlewyrchu yn y gofrestr risg. **21.184.2** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr adran ar ddadansoddi risgiau, cadarnhawyd mai'r sgôr oedd y risg gynhenid cyn ystyried unrhyw gamau rhaoli. Nododd y Cadeirydd y bu gostyngiad yn yr adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant mewn perygl a gofynnodd a oedd pryder bod y diffyg cyfleoedd i gwrdd wyneb yn wyneb wedi effeithio'n niweidiol ar faterion diogelu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cysylltiol - Diogelu fod pryderon ym Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ond bod ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn dal i gael eu cynnal lle bo angen a lle bo hynny'n briodol ond y byddai gwahanol flaenoriaethau a dehongliadau ar draws y chwe Awdurdod Lleol. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr aelodau fod atgyfeiriadau wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf gan fod sawl cyfeiriad fel rheol yn dod trwy'r system addysg ac nad oedd ysgolion wedi bod ar agor am gyfnodau hir. Byddai atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi parhau. Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn cyfeirio at bryderon ynghylch ansawdd adroddiadau plant mewn perygl ac y byddai rhywfaint o samplu pellach yn cael ei wneud. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cysylltiol - Diogelu y byddai cyfleoedd craffu gwell trwy rôl y rheolwr arweiniol cyn i'r adroddiadau gael eu hanfon at gydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol. Yn olaf, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y byddai'r achos busnes diogelu yn	

cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol i'w ystyried cyn gynted ag y byddai cyngor ar ambell bwynt yn cael ei dderbyn gan y grŵp cenedlaethol. **21.184.3 Penderfynodd y Bwrdd** dderbyn yr Adroddiad Blynyddol am y cyfnod 2020-2021 gan nodi'r cynnydd, y sicrwydd a'r gwaith arloesol dan arweiniad y Tîm Diogelu Corfforaethol i weithredu ar y gwersi a ddysgir ar draws y sefydliad er mwyn helpu i gadw ein cleifion, staff a'r sefydliad yn ddiogel. *[Gadawodd Michelle Denwood y cyfarfod]*	
21.185 Adroddiad Monitro Blynyddol - Gwasanaethau Iaith Gymraeg **21.185.1** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r Safonau Iaith Gymraeg, a bod yr adroddiad wedi cael ei graffu a'i gefnogi yn y Pwyllgor SPPH. Teimlai fod yr adroddiad yn dangos y gwaith a'r heriau sy'n dal i fodoli, ond bu cyfle hefyd i ddangos meysydd gweithredu lle gwnaed cynnydd o ran yr Iaith Gymraeg. Roedd hi'n dymuno tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn erbyn Safon 63 o ran darparu cyrsiau addysgol gan hefyd nodi fod gwaith pellach yn digwydd ar Safon 37 ynghylch darparu mwy o bapurau'r Bwrdd yn ddwyieithog. Bydd papur pellach dod gerbron y Bwrdd yn gynnar yn 2022. **21.185.2** Roedd Aelod Annibynnol yn dymuno canmol y Tîm Cymraeg am eu gwaith caled a'r cynnydd amlwg a wnaed, ond nododd ei bod yn parhau i bryderu ynghylch gallu ac adnoddau Tîm y Gymraeg. Nododd y Cadeirydd fod hyn wedi'i godi fel pryder o'r blaen a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod asesiad o ran gallu i fodloni Safon 37 ymhellach yn cael ei gynnal, ochr yn ochr â diffinio blaenoriaethau ehangach ar gyfer y gwasanaeth. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at 'Mwy na Geiriau ' a chadarnhawyd fod hwn yn parhau i fod yn ffocws i BIPBC, a bod tystiolaeth o gynnydd da. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod fforwm egnïol iawn yng Ngogledd Cymru ac roedd hi'n cydnabod cyfraniad swyddogion BIPBC, a werthfawrogwyd yn fawr. **21.185.3 Penderfynodd y Bwrdd** gymeradwyo'r adroddiad.	
21.186 Crynodeb o Ymgynghoriadau Blynyddol **21.186.1 Penderfynodd y Bwrdd** nodi'r ymgynghoriadau allanol yr ymatebodd y Bwrdd Iechyd iddynt, a'r trefniadau monitro cysylltiedig.	
21.187 Eitemau i'w Cyfeirio at Bwyllgorau **21.187.1** Nid oedd unrhyw eitemau angen eu cyfeirio at Bwyllgorau	
21.188 Adolygiad Risgiau a Amlygwyd yn y Cyfarfod 21.188.1 Nododd Ysgrifennydd y Bwrdd fod hon yn eitem newydd ar yr agenda a oedd yn gwahodd y Bwrdd i fyfyrio ar feysydd risg allweddol a oedd wedi codi, ac er mwyn gwneud yn gwbl sicr eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n briodol ar y cofrestrau risg ac yng nghynllun gwaith y Grŵp Rheoli Risg. Teimlwyd nad oedd y trafodaethau yn y cyfarfod wedi amlygu unrhyw gamau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy yn hyn o beth.	

21.189 Adolygiad Effeithiolrwydd Cyfarfodydd **21.189.1** Gwahoddwyd aelodau i fyfyrio ar effeithiolrwydd y cyfarfod. Gwnaethpwyd sylw gan Aelod Annibynnol, gyda chefnogaeth eraill, fod elfen o ddyblygu mewn rhai papurau sydd eisoes wedi bod trwy Bwyllgor ac yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn yr un fformat pan fyddai crynodeb efallai wedi bod yn ddigonol. Gwnaed sylwadau hefyd fod gwybodaeth mewn rhai papurau wedi dyddio erbyn cyrraedd y Bwrdd. Byddai'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn dilyn y sylwadau hyn. **21.189.2** Nododd y Prif Weithredwr ei bod yn gwerthfawrogi'r ffordd yr oedd y cyfarfod wedi'i gadeirio gan alluogi pawb i wneud cyfraniadau gwerthfawr, a bod gwesteion wedi cael eu croesawu.	MP LB
21.190 Crynodeb o fusnes preifat y Bwrdd i'w adrodd yn gyhoeddus **21.190.1 Penderfynodd y Bwrdd** nodi'r adroddiad	
21.191 Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf **21.191.1** Nodwyd y byddai'r Bwrdd yn cyfarfod nesaf ar y dyddiadau canlynol: Bwrdd i Fwrdd gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned 21.10.21 Bwrdd Iechyd 18.11.21 **21.191.2** Manteisiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd ar y cyfle i hysbysu aelodau o wasanaeth coffa a drefnwyd yn ystod yr Wythnos Rhoi Organau. Byddai'n rhannu manylion ar ei gyfer. Cymhellodd bawb i sicrhau eu bod nhw a'u hanwyliaid yn cael y sgwrs bwysig gyda'u teuluoedd ynghylch eu dymuniad i roi organau, er mwyn gallu cael cymaint â phosibl o lawdriniaethau achub a newid bywydau.	AT
21.192 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd **21.192.1 Penderfynwyd** gwahardd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, ac oherwydd y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.	

Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Bwrdd Iechyd 18 Tachwedd 2021
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad: **Report Title:**	Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Responsible Director:**	Jo Whitehead, Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad **Report Author:**	Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd
Craffu blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Jo Whitehead, Prif Weithredwr
Atodiadau **Appendices:**	Amh.

Argymhelliad / Recommendation:

Bod y Bwrdd Iechyd yn nodi adroddiad y Prif Weithredwr.

Ticiwch fel sy'n briodol (cofiwch y bydd Cadeirydd y cyfarfod yn adolygu'r ddogfen ac o bosibl yn penderfynu y dylid ei hystyried o dan gategori gwahanol)

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer Trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**		**Er gwybodaeth For Information**	✔

Y/N i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol **Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable**	**N**

Sefyllfa / Situation:

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n effeithio ar y sefydliad ac i dynnu sylw'r Bwrdd at feysydd o ddiddordeb amserol.

Mae nifer o faterion a godir yn yr adroddiad hwn yn cael mwy o sylw yn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel rhan o fusnes cyhoeddus y Bwrdd.

Cefndir / Background:

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am y prif faterion sy'n effeithio ar y sefydliad, rhai o'r digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd allweddol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr a throsolwg o ddatblygiadau lleol a chenedlaethol o ddiddordeb.

Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis

Y diweddaraf am y cynnydd yn y galw gan gleifion o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd a rheoli COVID-19.

Mae galw nas gwelwyd o'r blaen o hyd ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Gogledd Cymru, sy'n arwain at oedi sylweddol o ran darparu gofal a phwysau ar ein gwasanaethau brys. Mae ein timau gofal cymdeithasol ac iechyd yn gwneud popeth posibl ac yn defnyddio nifer o wasanaethau i gefnogi pobl sy'n ddigon da i adael yr ysbyty ond sydd angen gofal parhaus o hyd. Rydym yn cydnabod bod prinder cenedlaethol o weithwyr gofal ond mae'n arbennig o heriol yng Ngogledd Cymru ac er ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i recriwtio, mae angen rhagor o bobl arnom yn y swyddi hyn ac yn gyflym.

Mae'r anhawster wrth ryddhau cleifion sy'n feddygol ffit o'r ysbyty yn arwain at brinder gwelyau sylweddol ar draws ein hysbytai. Mae hyn yn effeithio ar ein gallu i gynnal llawdriniaethau sydd wedi cael eu cynllunio ac yn arwain at gyfnodau hir o aros mewn ambiwlans y tu allan i'n Hadrannau Brys, sy'n golygu nad yw'r parafeddygon yn gallu ymateb i alwadau brys eraill yn ein cymunedau.

Mae COVID-19 yn parhau i fod yn her ac mae'n dal i roi pwysau ychwanegol ar y system iechyd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae gennym dros 100 o gleifion sydd â haint COVID-19 yn ein hysbytai ar hyn o bryd, gyda nifer fach o'r rheini sy'n cael triniaeth yn ein Hunedau Gofal Dwys. Mae hyn yn ein hatgoffa'n amserol bod angen i ni barhau i ddilyn y rheolau sydd ar waith i ddiogelu ein hanwyliaid a'n hunain a helpu i leihau'r risg o ledaenu'r haint yn ein cymunedau.

Mae'r gaeaf bob amser yn gyfnod heriol ac nid yw'r galw ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol erioed wedi bod yn uwch na'r cyfnod pandemig hwn. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gofal wedi'i gynllunio yn parhau drwy'r cyfnod prysur hwn. Gall pawb chwarae eu rhan hefyd drwy gael eu brechiadau COVID, ffliw, a meddwl am y gwahanol ddewisiadau ar gyfer cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae diweddariad pellach ar ymateb parhaus y Bwrdd Iechyd i COVID 19 a'r gofynion cleifion sy'n deillio o hynny a'r rhaglen frechu wedi'u cynnwys ar agenda'r Bwrdd Cyhoeddus.

Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch modelau darparu i gefnogi adferiad gofal eilaidd yn y ffordd orau, a chytunwyd mewn egwyddor mai datblygu dwy ganolfan ddiagnostig ranbarthol yw'r dull mwyaf effeithlon o drin y nifer fawr o gleifion sydd ar restrau aros ar hyn o bryd, yn ogystal â thrawsnewid llwybrau a darparu gwasanaeth cynaliadwy yn y tymor hirach. Bydd y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau a Rennir nawr yn adolygu ac yn datblygu opsiynau/modelau gan ganolbwyntio'n benodol ar amser i weithredu, cost ac effaith ar ofal a phrofiad cleifion.

Cyfarfodydd a digwyddiadau'r Prif Weithredwr

Dros y misoedd diwethaf, mae Mark a minnau wedi bod yn ffodus i gwrdd â nifer o gydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn ddiweddar roeddem wedi treulio diwrnod ym mhob un o'r ardaloedd, Gorllewin, Dwyrain a Chanol, yn cwrdd â chydweithwyr ar draws nifer o wasanaethau mewn gwasanaethau gofal a chymorth sylfaenol ac eilaidd. Roedd sesiwn 'Gofyn i'r Panel' ar-lein yn ddiweddar gyda Sue Hill a Chris Stockport yn gyfle gwych i gael sesiwn holi ac ateb gyda chydweithwyr o amrywiaeth o rolau ac edrychaf ymlaen at yr un nesaf ym mis Rhagfyr.

Trosglwyddo Timau Iechyd y Cyhoedd Lleol o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol. Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddatblygu rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd yn nodi'r meysydd cymorth a chydweithio rhwng y sefydliadau y tu hwnt i'r trosglwyddo, gan roi eglurder i Fyrddau Iechyd ynghylch cymorth arbenigol parhaus ar draws meysydd iechyd y cyhoedd. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Timau Iechyd y Cyhoedd i'r Bwrdd Iechyd.

Gwobrau Nursing Times 2021

Enillodd Tîm Foelas, yn dilyn eu cais ar y cyd â'r Tîm Dialysis, gategori Anabledd Dysgu Gwobrau'r Nursing Times ar gyfer eu gwasanaeth hemodialysis gartref mewn ysbyty cymunedol i gleifion mewnol ag anabledd dysgu. Rydym wrth ein bodd bod y gwasanaeth anhygoel hwn wedi cael ei gydnabod a'i fod wedi cael gwobr mor wych.

Trawsnewid Llety Preswyl i Staff

Sefydlwyd tîm prosiect i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ac mae'r prosiect yn cael ei nodi'n glir. Mae'r materion i'w trafod yn cynnwys rhagweld y galw yn y dyfodol, argaeledd safleoedd datblygu, a fforddiadwyedd, gan gynnwys triniaeth mantolen. Mae gwasanaeth a reolir yn cael ei ystyried yn unol â thrafodaethau gweithdy'r bwrdd ym mis Mehefin. Mae ymgysylltu rhagweithiol yn digwydd gyda phartneriaid posibl, a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyfleoedd i gefnogi'r economi sylfaenol a chreu gwerth cymdeithasol ychwanegol yn cael eu gwireddu. Bydd angen cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw ateb ac felly bydd achos busnes yn cael ei baratoi ar gyfer y diben hwn a'n trefn lywodraethu fewnol ein hunain.

Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i fwrw ymlaen â'r datblygiad a chyflawni ein huchelgais ar y cyd i ddatblygu Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd annibynnol yng Ngogledd Cymru. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod hon yn rhaglen ranbarthol sy'n rhoi profiad rhagorol i fyfyrwyr ar hyd a lled Gogledd Cymru. Mae Prifysgol Bangor yn bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda Phrifysgol Caerdydd i sicrhau bod trefniant cyd-gefnogol ar waith sy'n arwain at ehangu'r rhaglen bresennol a throsglwyddo'n effeithiol i'r cwricwlwm newydd.

Mae gwaith i gwmpasu a datblygu capasiti lleoliadau yn y Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo ac mae'r waelodlin gychwynnol wedi'i sefydlu erbyn hyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu opsiynau ar gyfer ehangu wrth i nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn gynyddu. Mae rhyngddibyniaethau rhwng y gwaith hwn a'r cwricwla presennol a'r rhai sy'n datblygu, a bu ffocws i sicrhau bod y ddau faes hyn yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ffrwd waith y Gweithlu wedi adolygu ei briff yn ddiweddar ac mae hyn bellach yn cynnwys datblygu Strategaeth Gweithlu Meddygol ochr yn ochr â chynllunio ar gyfer y camau ymarferol sydd eu hangen i weithredu'r ysgol newydd.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer y cam datblygu nesaf ar lefel genedlaethol.

Cronfa ddata Dysgu ar y Cyd NICE – gwasanaethau mamolaeth

Yn ddiweddar, mae cydweithwyr o wasanaethau Obstetreg a Gynaecolegol wedi cael 'dysgu a rennir' wedi'i gyhoeddi gan NICE ar leihau'r risgiau o COVID-19 ar draws gwasanaethau mamolaeth. Nod y prosiect hwn yw rhannu'r heriau a'r dysgu wrth ddatblygu strategaethau lleol i leihau risgiau COVID-19 ar draws Gwasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gogledd Cymru. Mae hyn yn gydnabyddiaeth wych o ymchwil lleol yn cyrraedd cynulleidfa genedlaethol a rhyngwladol.

Adroddiadau ar Fforymau a Chyd-bwyllgorau Cymru Gyfan

- Cyfarfu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar 7 Medi 2021. Mae'r adroddiad Sicrwydd wedi'i gynnwys yn atodiad 1
- Cyfarfu Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru ar 18fed Hydref 2021. Mae'r adroddiad diweddaru wedi'i gynnwys yn atodiad 2.

Goblygiadau Strategol
Nid oes dim goblygiadau strategol penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Opsiynau i'w hystyried
Nid oes rhagor o opsiynau i'w hystyried.

Goblygiadau Ariannol
Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Dadansoddi Risg
Mae'r goblygiadau risg y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu trafod yn fanylach mewn adroddiadau ategol ar agenda'r Bwrdd Cyhoeddus.

Cyfreithiol a Chydymffurfio
Nid oes dim goblygiadau cyfreithiol a chydymffurfio penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Asesiad Effaith
Nid oes angen asesiad effaith i gefnogi'r adroddiad hwn.

Diweddariad Covid-19 Update

Bwrdd Iechyd Health Board

Tachwedd 18 November

2021

GIG CYMRU NHS WALES


Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Amlder ac Effaith
Prevalence and Impact

Lefelau yn y Gymuned

Community levels




30 Medi / September – 10 Tachwedd / November 2021

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Achosion wedi'u cadarnhau yn ôl oedran


Confirmed cases by age



Age: 0-15, 16-29, 30-49, 50-69, 70 and over

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Cleifion Mewnol Ysbytai - Covid-19 - Hospital Inpatients



142 o gleifion mewnol
88 dros 15 diwrnod

11.11.21

142 inpatients
88 over 15 days

11.11.21

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Penderfyniadau EIMT

- Ehangu taliadau estynedig ar gyfer staff rheng flaen
- Cefnogaeth i ddiweddariadau i asesiadau risg ar symud staff o fewn y Polisi Staff Nyrsio
- Cefnogaeth i ddiwygiadau tymor byr i oriau agor Unedau Mân Anafiadau (Gorllewin) er mwyn cynnal gwasanaethau cleifion mewnol
- Argymhellion mewn perthynas ag offer profi newydd i wella llif trwy Adrannau brys
- Cefnogaeth ar gyfer capasiti ychwanegol yn ward Aberconwy a chartrefi gofal (Gorllewin a Dwyrain)
- Cefnogaeth ar gyfer asesu risg gofynion pellter cymdeithasol mewn canolfannau brechu Covid-19
- Argymhellion ar gyfer mentrau cynlluniau gaeaf

EIMT decisions

- Extension of enhanced payments for frontline staff
- Support for updates to risk assessments on the movement of staff within the Nurse Staffing Policy
- Support for short term amendments to opening hours of Minor Injury Units (West) in order to maintain inpatient services
- Recommendations in respect of new testing equipment to improve flow through emergency Departments
- Support for additional capacity in Aberconwy ward and care homes (West and East)
- Support for risk assessment of social distancing requirements in Covid-19 vaccination centres
- Recommendations for winter plan initiatives

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Profi, Olrhain, Diogelu

Test, Trace, Protect

Diweddariad TTP

Profi: galw cynyddol yn deillio o sgrinio cyn derbyn a sgrinio cleifion mewnol, gostyngiad bach mewn meysydd profi eraill. Cyflwynwyd newidiadau i ofynion hunan-ynysu o 29 Hydref

Olrhain: achosion cyfeirio wedi bod yn lleihau i ychydig dros 3,000 yn y 7 diwrnod blaenorol. Cysylltiadau 6,410 ar gyfer yr un cyfnod

Amddiffyn: y chwech Hwb Cefnogi Covid yn aprhau i gydweithio er cefnogaeth cymunedau lleol. Cadarnhawyd cyllid hyd at ddiwedd Mawrth 2022.

Risgau: Capasiti gweithlu yn parhau i fod yn risg ar gyfer rhaglenni profi ac olrhain

TTP Update

Testing: increased demand arising from pre-admission and inpatient screening, slight decrease in other areas of testing. Changes to self-isolation requirements were introduced from 29 October

Tracing: index cases have been decreasing to just over 3,000 in the previous 7 days. Contacts 6,410 for the same period

Protect: the six Covid Support Hubs continue to work in partnership in support of local communities. Funding has ben confirmed up to end of March 2022.

Risks: workforce capacity remains a risk for testing and tracing programmes

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Rhaglen Frechu
Vaccination programme

Brechlynnau

Hyd at 10 Tachwedd, rydym wedi rhoi dros 1,163,802 brechlyn Covid-19 yng ngogledd Cymru gan gynnwys:

- dros 505,349 ail ddos
- dros 134,876 trydydd dos a brechiadau atgyfnerthu

Vaccinations

As at 10 November, we have given more than 1,163,802 Covid-19 vaccines in North Wales including:

- over 505,349 second doses
- over 134,876 third and booster doses

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Carfannau JCVI

JCVI Cohorts

Carfan		Cohort	Dos 1af / 1st dose	Ail ddos / 2nd dose
Preswylwyr cartrefi gofal pobl hŷn a'u gofalwyr	1	Older adult care home residents and their carers	98% - 92%	98% - 89%
Pawb sy'n 80 oed a hŷn a staff rheng flaen iechyd a gofal cymdeithasol	2	All those 80 years of age and over and frontline health & social care workers	96% - 97% - 99%	96% - 95% - 98%
75 oed a hŷn	3	75 years of age and older	97%	96%
70 oed a hŷn	4a	70 years of age and older	96%	96%
16 – 69 oed gyda chyflyrau iechyd gwaelodol a gofalwyr di-dâl cymwys	4b	16 – 69 years with underlying health conditions and eligible unpaid carers	92%	90%
65 oed a hŷn	5	65 years of age and older	95%	94%
Oedolion yn wynebu risg cymedrol o dan 70 oed	6	Moderate risk adults under 70 years of age	90%	86%
Gweddill y rhai 60 oed a hŷn	7	Remaining 60 years of age and over	91%	90%
Gweddill y rhai 55 oed a hŷn	8	Remaining 55 years of age and over	89%	87%
Gweddill y rhai 50 oed a hŷn	9	Remaining 50 years of age and over	89%	87%
Gweddill yr oedolion dan 50 oed	10	Remaining adults aged under 50	80% - 72% - 76%	76% - 66% – 66%
Pawb rhwng 12 – 17 oed	10d	All those aged 12 – 17 years	65%	4%

Rhaglen frechu – y cam presennol

- Cychwynnodd y rhaglen atgyfnerthu yn ystod yr wythnos yn cychwyn 13 Medi ar gyfer carfannau blaenoriaethol 1-9 yn y lle cyntaf
- Mae pobl sydd â system imiwnedd wan yn cael apwyntiadau ar gyfer trydydd dos, dan arweiniad eu clinigwr o safbwynt priodoldeb, yn dibynnu ar driniaeth
- Mae pobl ifanc 12-15 oed yn cael gwahoddiad trwy lythyr, ac mae apwyntiadau galw heibio bellach ar gael ar gyfer y grŵp hwn mewn clinigau penodol yn yr holl safleoedd brechu
- Cwblhawyd y rownd gyntaf o frechlynnau atgyfnerthu mewn cartrefi gofal erbyn diwedd Hydref
- Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i dargedu grwpiau anodd i'w cyrraedd a chynyddu cyfraddau derbyn brechiadau

Vaccination programme – current phase

- Booster programme commenced in w/c13th September for initial priority cohorts 1-9
- People who are immunosuppressed are being booked in for third doses, guided by their clinician on appropriateness, depending on treatment
- 12 – 15 year olds are being invited by letter, and walk-in appointments are now available for this group at specific clinics on all vaccination sites
- The first round of care home booster doses was completed by the end of October
- We continue to work with partners to target hard to reach groups and increase vaccination uptake rates

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Rhaglen brechu – materion allweddol

- Mae'n anoddach rhoi'r rhaglen brechlynnau atgyfnerthu oherwydd Pfizer yw'r brechlyn a ffafrir
- Mae nifer y meddygfeydd teulu sy'n gallu cymryd rhan wedi gostwng yn sylweddol o gyfanswm 98 yn y rhaglen wreiddiol i 15
- Mae newidiadau i argaeledd canolfannau brechu torfol hefyd wedi arwain at lai o gapasiti
- Codwyd pryderon mewn perthynas â phellter teithio a chiwiau mewn canolfannau brechu hefyd
- Mewn ymateb, rydym yn chwilio am safleoedd ychwanegol a chapasiti ychwanegol mewn safleoedd presennol er mwyn hwyluso'r rhaglen
- Rydym yn cysylltu â darparwyr cludiant yn y trydydd sector ac yn y gymuned i allu cyfeirio pobl at opsiynau cludiant
- Mae cyfathrebiadau cenedlaethol a lleol yn parhau i gefnogi'r rhaglen ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i gael mynediad i'r rhaglen

Vaccination programme – key issues

- The booster programme is more difficult to administer as Pfizer is the preferred vaccine
- The number of GP practices able to take part has reduced significantly from a high 98 in the primary programme to 15
- Changes to mass vaccination centre availability has also led to reduced capacity
- There have been concerns raised in respect of travelling distance and also queues at vaccination centres
- In response, we are seeking additional sites and additional capacity at existing sites in order to expedite the programme
- We are liaising with third sector and community transport providers to be able to signpost people to transport options
- National and local communications continue to support the programme and signpost people to sources of information, advice and support to access the programme

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Cyfarfod y Bwrdd 18 Tachwedd 2021
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018. Diweddaru'r gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru a Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan).
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Meryl Roberts, Rheolwr Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2).
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Amherthnasol
Atodiadau Appendices:	**Atodiad 1:** Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru). - Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru. **Atodiad 2:** Deddf Iechyd Meddwl 1983 - Diweddaru'r Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru.

Argymhelliad / Recommendation:

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a'r Ddogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12 ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy A12.

Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer Trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**	✓	**Er gwybodaeth For Information**	

Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable	**N**

Sefyllfa / Situation:

Mae'r manylion a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn yr Adroddiad hwn yn grynodeb o'r cymeradwyaethau sydd wedi cael eu cadarnhau yn barod ar gyfer cymeradwyaethau Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled y wlad.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu cofnod llywodraethu ar gyfer cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007) y broses gymeradwyo a chadarnhau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ymgymryd â swyddogaeth ddirprwyedig Gweinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12 (2) ar ran yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod prosesau cymeradwyo ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12(2) yng Nghymru yn cael eu cymeradwyo, eu hail-gymeradwyo, eu hatal a'u terfynu'n effeithiol.

Cefndir / Background:

Mae'r Broses Gymeradwyo yn rhan o'r broses ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007).

Mae Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Llywodraeth Cymru (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018, Trefniadau Gweithdrefnol Clinigwyr Cymeradwy (Gorffennaf 2018) a Dogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) Cymru Gyfan (Medi 2021) yn nodi'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo Meddygon a Chlinigwyr anfeddygol sy'n dymuno cael eu cymeradwyo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Defnyddir y dogfennau hyn gan y Tîm Cymeradwyo a Phanel A12 a Chlinigwyr Cymeradwy Cymru Gyfan sy'n craffu ar geisiadau am gymeradwyaeth a dderbyniwyd gan Glinigwyr Iedled y wlad. Derbynnir ceisiadau naill ai ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy neu geisiadau Adran 12(2) gan Seiciatryddion, Ymarferwyr Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill sy'n gymwys i wneud cais am statws cymeradwy dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) (fel y'i diwygiwyd yn 2007).

Mae ceisiadau'n cael eu harchwilio gan y tîm cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio, ac yna'n cael eu cyflwyno i aelodau'r Panel er mwyn iddynt graffu arnynt, eu hasesu a'u hargymell.

Yn dilyn asesiad y Panel, rhaid i unrhyw argymhelliad i gymeradwyo gael ei gadarnhau'n ffurfiol gan y Bwrdd Cymeradwyo, er mwyn i'r broses gymeradwyo fod yn gyfreithlon ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion deddfwriaethol.

Ceisir cadarnhad drwy lythyr Gweithredu ysgrifenedig gan y Cadeirydd ac fe'i cyflwynir i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i'w gydlynu a'i gwblhau.

Yna ceir cymeradwyaeth yn ysgrifenedig gan Gadeirydd y Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol, Ysgrifennydd y Bwrdd a dau Aelod Annibynnol ac fe'i dychwelir i'r Tîm Cymeradwyo.

Mae'r Clinigydd wedyn yn cael gwybod ei fod wedi cael ei gymeradwyo a chaiff hyn ei gadarnhau yn ysgrifenedig mewn llythyr cymeradwyo wedi ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol.

Wedyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau'r penderfyniadau'n ffurfiol drwy'r papur hwn sy'n cael ei gyflwyno bob dau fis

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Mae'r Bwrdd yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cyfarwyddydau sy'n sail i'r swyddogaeth bwysig hon.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod un gymeradwyaeth Adran 12 wedi'i rhoi i Feddyg mewn llythyr cymeradwyo wedi ei lofnodi dyddiedig 9 Awst 2021. Holwyd ynghylch y gymeradwyaeth a'i hatal yn dilyn adolygiad pellach ar 26 Awst 2021.

Yn dilyn ymchwiliad cynhwysfawr a gwblhawyd ar 4 Hydref 2021, ni chafodd y gymeradwyaeth Adran 12 ei hadfer ac fe ddaeth i ben yn ffurfiol ar 5 Hydref 2021. Bydd yr ymchwiliad yn sail i ddatblygu Cyfarwyddydau ynghyd â phenderfyniadau cadarn gan y panel.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Adroddiad ffeithiol yw hwn at ddibenion sicrwydd.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Dim

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Er mwyn sicrhau bod yr holl Glinigwyr yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, mae Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan yn asesu ceisiadau yn unol â'r Trefniadau Gweithdrefnol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Os nad ydy Clinigwyr yn gwneud cais am ail-gymeradwyaeth yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, gallai eu cymeradwyaeth ddod i ben a chael effaith niweidiol ar argaeledd Clinigwyr Cymeradwy, Clinigwyr Cyfrifol a Meddygon Cymeradwy Adran 12 ar draws y gweithlu yng Nghymru.

O dan Reoliadau Iechyd Meddwl (Cydnabyddiaeth Gilyddol) 2008, mae Meddyg cymeradwy Adran 12 yn Lloegr hefyd wedi'i gymeradwyo yng Nghymru, ac fel arall. Oherwydd diffyg Cyfarwyddydau Adran 12 ar gyfer Cymru, mae risg na fydd Meddyg cymeradwy Adran 12 yng Nghymru yn gyfreithlon yn Lloegr.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Mae'r Broses Gymeradwyo yn bodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd 2007) a Chyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi nad oes gan Gymru Gyfarwyddydau Adran 12 ar gyfer cymeradwyo, ail-gymeradwyo a therfynu cymeradwyaeth Meddyg Adran 12. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â'r Tîm Cymeradwyo ar 20 Hydref 2021 a chytunwyd y bydd Cyfarwyddydau Adran 12 yn cael eu gwneud.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Dim.

Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy a Meddygon Cymeradwy Adran 12 (2) yng Nghymru 25 Awst 2021 - 26 Hydref 2021		
	Clinigwyr Cymeradwy	**A12 (2)**

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo	15	9
Tynnwyd – Wedi dod i ben	3	2
Atal cymeradwyaeth dros dro	0	0
Ail-ysgogi cymeradwyaeth/Ailysgogi a dychwelyd i weithio yng Nghymru	1	0
Cymeradwyaeth wedi dod i ben	2	2
Wedi ymddeol	0	0
Tynnwyd – Clinigwyr Cymeradwy wedi'u cymeradwyo	Amh.	1
Ddim wedi cofrestru mwyach ac wedi ymddeol	1	0
Trosglwyddwyd o'r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy	1	1
Cymeradwyaeth wedi dod i ben gan nad ydynt yn gweithio yng Nghymru mwyach	2	0
Wedi cofrestru heb drwydded i ymarfer	0	0
RIP	0	0

ATODIAD 1

Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007

Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru)

Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru

25 Awst 2021 – 26 Hydref 2021

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 15

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Zafar	Mohammad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2PW.	13 Mai 2025	Oes
Jahan	Ali Md	Cygnet Healthcare, Ysbyty Annibynnol Delfryn House, yr Wyddgrug, Sir y Fflint.	2 Medi 2025	Oes
Hussain	Mohammad Aqib	Priory Group, Ysbyty Annibynnol Tŷ Catrin, Heol Dyfrig, Caerdydd, CF5 5AD.	9 Awst 2026	Oes
Ohonba	Isaac	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn Ysbyty Llandochau, Heol Penlan, Penarth, CF64 2XX.	22 Awst 2026	Oes
Olowofela	Afolabi	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Nant y Glyn, 10 Ffordd Nant y Glyn, Conwy, LL29 7PU.	4 Hydref 2026	Oes
Thomas	Alec	Elysium Healthcare, Ysbyty Aberbîg, Heol Penydarren, Abertyleri, NP13 2DA.	7 Hydref 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Swarnkar	Anvita	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 6 Gold Tops, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Dwyrain Casnewydd, Casnewydd NP20 4PG	16 Medi 2026	Oes
Chick	Gregory	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Canolfan Blant Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7ZA.	19 Medi 2026	Oes
Rodriguez-Medieta	Javier	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Glannau Dyfrdwy, Aston House, Ysbyty Gymunedol Glannau Dyfrdwy, Plough Lane, Glannau Dyfrdwy CH5 1XS.	26 Medi 2026	Oes
Rudrappa	Shiva	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Tîm Cymunedol ar gyfer Anableddau Dysgu, 1 Heol Penlan, Caerfyrddin SA31 1DN	5 Hydref 2026	Oes
Lewis	Julia Claire	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwent, 139 Lower Dock Street, Casnewydd NP20 1EE	5 Hydref 2026	Oes
Peter	Lionel	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty St Cadoc, Lodge Road, Caerllion, Casnewydd NP18 3XQ	7 Hydref 2026	Oes
Kyaw	Myo Than	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Nevill Hall, Tîm Pobl Hŷn, Heol Aberhonddu, Y Fenni, NP7 7EG.	7 Hydref 2026	Oes
Self	Mary	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Cefn yr Afon, 71 Heol Quarella, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1JS	10 Hydref 2026	Oes
Gindeel	Haytham	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Erwyd, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Aberhonddu LD3 0LU	18 Hydref 2026	Oes

Atal cymeradwyaeth dros dro: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ail-ysgogi cymeradwyaeth: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Chugh	Sanjay Kumar	Cyfeiriad cartref	18 Medi 2022

Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 3

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Gupta	Seema	Delfryn Lodge, Argoed Hall Lane, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6FQ.	21 Medi 2021
Adewale	Akilo	The Hazels, Temple Street, Llandrindod, Powys LD1 5HF	13 Hydref 2021
Davies	Jeffrey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cwm Coch, Ysbyty Aneurin Bevan, Lime Avenue, Glynebwy, Blaenau Gwent, NP23 8DN.	31 Awst 2021

Wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Ddim wedi cofrestru mwyach ac wedi ymddeol: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Nicholls	Kevin	Mental Health Care UK, Ysbyty Annibynnol New Hall, Rhiwabon, LL14 6HB.	2 Medi 2021

Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy i Gofrestr A12: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Basavaraj	Chandrashekar	Cyfeiriad preifat	7 Hydref 2026

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Sanikop	Ajat	Priory Group, Ysbyty Llanarth Court, Llan-arth, Rhaglan, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 2YD.	26 Medi 2024
Dean	Anthony	Mental Health Care UK, Ysbyty Annibynnol New Hall, Rhiwabon, LL14 6HB.	13 Chwefror 2025

Cymeradwyaeth wedi dod i ben: *2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Heke	Sian * *yn aros am apêl i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.*	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ysbyty Cefn Coed, Heol Waunarlwydd, Y Cocyd, Abertawe SA2 0LB.	10 Medi 2021
Colter	Robert	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty St Cadoc, Lodge Road, Caerllion, NP18 3XQ.	26 Hydref 2021

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

ATODIAD 2

Deddf Iechyd Meddwl 1983

Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru

25 Awst 2021 – 26 Hydref 2021

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 9

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Thorn	Laura	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ.	12 Awst 2026	Oes
Emmett	Paul	Practis Meddygol Craig y Don, Ffordd Clarence, Llandudno, Conwy LL30 1TA.	23 Awst 2026	Oes
Patel	Neil	Gynt o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, Uned Felindre, Ysbyty Bronllys, Powys, LD3 0LU.	22 Awst 2026	Oes
Pane	Olwen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) Talarfon, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2EE.	9 Gorffennaf 2024	Na
Yule	Graeme	Canolfan Feddygol St Julians, 13a Heol Stafford, Casnewydd NP19 7DQ.	24 Medi 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Honeybun	Jeremy	Canolfan Feddygol Gwrych, Cae Eithin, Abergele, Conwy LL22 8LJ.	27 Medi 2026	Oes
Ng	Christopher Chen-Wei	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ffordd Penlan, Llandochau, Penarth, CF64 2XX	24 Awst 2026	Oes
Gupta	Bibek	Cyfeiriad Preifat	6 Hydref 2026	Oes
Thompson	John	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu, d/o Cyfeiriad Preifat.	17 Hydref 2026	Oes

Daeth i ben: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Clarke-Walker	Alistair	Ystafelloedd Ymgynghori Caerdydd, 277 Heol Cyn Coed, Caerdydd, CF23 6PA.	4 Hydref 2021
Shine	Laura	Gynt o Glinig Plant a Theuluoedd Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Blant, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Ffordd Baglan, SA12 7BX.	16 Hydref 2021

Daeth i ben: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Clark	Peter Barry	Cyfeiriad cartref preifat	12 Medi 2021
Mehmood	Taiyyab	Gynt o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Uned Iechyd Meddwl, Ynysymaerdy, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8XR.	5 Hydref 2021

Daeth yn Glinigwr Cymeradwy: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Thomas	Alec Ashton	Elysium Healthcare, Ysbyty Aberbîg, Heol Penydarren, Abertyleri, NP13 2DA.	7 Hydref 2026

Ddim wedi cofrestru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Trosglwyddwyd o'r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Basavaraj	Chandrashekar	Gwasanaethau Iechyd a Lles Meddyliol, SY2 6LG.	7 Hydref 2026

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Bwrdd Iechyd 18th Tachwedd 2021
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad **Report Title:**	Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad hyd at 30.09.2021
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Responsible Director:**	Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Awdur yr Adroddiad **Report Author:**	Edward Williams, Pennaeth Sicrhau Perfformiad
Craffu blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Craffodd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid ac Llywodraethu Gwybodaeth ar y data a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ar 28ain Hydref 2021 a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar yr 2il Tachwedd 2021
Atodiadau **Appendices:**	1. Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad

Argymhelliad / Recommendation:

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Iechyd graffu ar yr adroddiad.

Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth **For Decision/ Approval**		**Ar gyfer Trafodaeth** **For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd** **For Assurance**	✓	**Er gwybodaeth** **For Information**	

Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol **Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable**	**N**

Sefyllfa / Situation:

Dros y 12 mis diwethaf, mae cyfradd gronnol yr achosion bacteraemia a gadarnhawyd gan labordai ym mhob 100,000 o'r boblogaeth, gan gynnwys E.Coli a C.Difficile, wedi cynyddu ar draws Cymru gyfan. Mae'r timau atal a rheoli heintiau yn dal i weithio ar leihau nifer yr heintiau ochr yn ochr â'u gwaith ar COVID-19

Mae'r pwysau ar y system gofal heb ei drefnu yn parhau. Er bod y perfformiad yn dal i fod yn is na'r targed o weld 95% o gleifion o fewn 4 awr, ar 64.92% ym mis Medi, mae hwn ychydig yn well na'r ffigur o 64.52% ym mis Awst. Fe wnaeth nifer y cleifion sy'n aros dros 12 awr yn ein Hadrannau Brys syrthio am y tro cyntaf mewn 9 mis ar 2,595 o'i gymharu â 2,786 ym mis Awst. Fodd bynnag, fe wnaeth nifer y cleifion sy'n aros dros 24 awr godi i 905 (I gymharu a 685 yn mis Awst ac 411 yn Gorfennaf). Fe wnaeth nifer y cleifion sy'n wynebu oedi o awr neu ragor cyn cael eu trosglwyddo o'r ambiwlans hefyd syrthio, o 1,735 ym mis Awst i 1,610 ym mis Medi.

Mae'r perfformiad yn erbyn y mesur gofal strôc yn dal i fod yn wael a syrthiodd y perfformiad i 23.9% o gleifion yn cael eu derbyn i Uned Asesu Strôc o fewn 4 awr o'i gymharu â 33% ym mis Awst. (yn erbyn targed o 59%). Fe wnaeth cyfradd y cleifion a archwiliwyd gan Ymgynghorydd Strôc o fewn 24 awr wella ychydig ar 73.9% ym mis Medi (yn erbyn targed o 85%) o'i gymharu â 68% ym mis Awst.

Cafodd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC) ei ddisodli gan Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA). Ers dechrau adrodd ar D2RA, bu cynnydd yn nifer y cleifion sy'n wynebu oedi cyn trosglwyddo i gartrefi gofal fel y gwelwch ar graff ar dudalen 54.

Fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae COVID-19 yn dal i gael effaith aruthrol ar ein gallu i gyflenwi gwasanaethau gofal wedi'i drefnu ar yr un gyfradd â chyn COVID-19 gan arwain at amseroedd aros hirach.

Ym mis Medi, fe wnaeth nifer y bobl sy'n aros dros 36 wythnos syrthio am y tro cyntaf mewn 3 mis ar 54,805 o'i gymharu â 55,295 ym mis Awst. Fe wnaeth nifer y bobl sy'n aros dros 52 wythnos hefyd syrthio ar 41,578 ym mis Medi, o'i gymharu â 41,616 ym mis Awst.

Fe wnaeth nifer y bobl sy'n aros dros 8 wythnos am brofion diagnostig ar 7,352 syrthio am y tro cyntaf mewn nifer o fisoedd ym mis Medi o'i gymharu â 7,389 ym mis Awst.

Fe wnaeth nifer y cleifion sy'n aros dros 14 wythnos am therapi hefyd godi i 2,610 ym mis Medi, o'i gymharu â 2,036 ym mis Awst 2021.

Er bod y perfformiad yn erbyn targed y llwybr Lle'r Amheuir Canser o 75% o gleifion yn dechrau triniaeth cyn pen 62 diwrnod o'r amheuaeth yn dal i fod yn is na'r targed ar 65.7% yn Awst, PBC yw'r Bwrdd Iechyd sy'n perfformio ail orau o hyd yng Nghymru o ran y Llwybr Lle'r Amheuir Canser.

Ar 182,526 fe wnaeth nifer y cleifion sy'n aros ar y rhestr aros am 'Apwyntiad Dilynol' syrthio ym mis Medi 2021. I nifer y cleifion hynny a oedd dros 100% yn hwyr, fe wnaeth eu dyddiad dilynol syrthio ychydig ar 55,247 ar ddiwedd mis Medi 2021 o 55,286 yn Awst.

Fe wnaeth perfformiad yn erbyn y mesur gofal llygaid wella i 43.1% ym Medi 2021, o'i gymharu â 42.43% yn Awst.

Er ei fod wedi gwella, mae'r Perfformiad yn erbyn y targed 26 wythnos o blant sy'n aros am asesiad niwroddatblygiad yn dal i fod yn wael ar 30.34%, o'i gymharu â ffigur o 32.79% a adroddwyd yn flaenorol. Mae ffigurau perfformiad Medi yn dechrau dangos effaith yr atgyfeiriadau cynyddol i'n cyflenwr allanol; gyda chapasiti cynyddol o fis Gorffennaf ac amser aros o 6 wythnos nes ceir asesiad. Disgwyliwn i'r rhestr aros ddechrau lleihau fesul mis erbyn diwedd Hydref gyda'r tueddiad yn debygol o barhau hyd at ddiwedd Mawrth 2022.

Gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) mae'r perfformiad yn dal i fod yn wael yn erbyn y targedau ar gyfer cyfradd y plant a asesir cyn pen 28 diwrnod o gael eu cyfeirio, ar 23.60%, ac sy'n dechrau therapi cyn pen 28 diwrnod o gael eu hasesu ar 16.40%.

Gyda gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, arhosodd y perfformiad ar daflwybr gwella ym mis Awst, gyda chanran yr oedolion a asesir cyn pen 28 diwrnod o'u cyfeirio yn 66.6%. Er ei fod wedi syrthio ychydig, mae nifer y cleifion sy'n dechrau therapi cyn pen 28 diwrnod o gael asesiad yn dal i fod yn uwch na'r targed o 80% ar 80.10%.

Bu gwelliant cyson a sylweddol yng nghanran yr oedolion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol ac ar 87.1% ym mis Hydref 2021, mae'n dal i fod yn uwch na'r targed o 80%. Mae hwn yn welliant sylweddol a pharhaus o ganran isel o 20.1% ym Medi 2020.

Mae nifer y cleifion sy'n wynebu oedi wrth drosglwyddo gofal (DToC) ym maes iechyd meddwl wedi codi ychydig ar 17 ym Medi 2021 (o'i gymharu ag 16 yn yr adroddiad blaenorol), mae hyd arosiadau hefyd wedi cynyddu i 817 (o'i gymharu â 580 yn yr adroddiad blaenorol). Mae'r gwasanaeth yn gweithio i ddatrys y materion sy'n arwain at DToC a disgwylir y bydd nifer a hyd yr achosion o DToCs yn syrthio dros y misoedd nesaf.

Adroddwyd am ddau Ddigwyddiad Byth newydd yn Chwarter 2 o 2021/22 (digwyddodd y ddau yn Awst 2021), o'i gymharu â thri Digwyddiad Byth yr adroddwyd amdanynt yn Chwarter 1 o 2021/22.

Y tueddiad gyda chyfraddau salwch staff dros y 3 mis diwethaf (Mehefin i Medi) fu un o gynnydd gyda ffigur Medi yn 5.56%. Fe wnaeth salwch cysylltiedig â COVID-19 hefyd godi i 0.8% (o 0.5% yn Awst 2021).

Mae Cyfraddau PADR wedi dal i syrthio yn y pedwar mis diwethaf i 67.8% wedi'u cwblhau erbyn diwedd Medi 2021, tra bod cyfraddau Hyfforddiant Gorfodol wedi gwella ar 84.2% ar gyfer Medi 2021 ac mae'n awr yn is nag 1% o dan y gyfradd darged o 85%.

Ym mis Medi mae cost gyfunol staff Asiantaeth a Locwm yn dal i fod yn eithaf sefydlog ar 7.5%.

Mae cyfradd fras Marwolaethau (dan 75 oed) wedi gostwng i 0.96%. Mae'r gyfradd farwolaethau ar gyfer PBC yn is na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru sy'n 1.13%. Ni fu'r bwrdd iechyd yn allanolyn o safbwynt marwolaethau ers o leiaf 24 mis. Awgrymir, felly, nad oes angen darparu adroddiad eithriad ar hyn mwyach.

Erys pryder ynglŷn â chofnodi a monitro'r ddarpariaeth bwndeli Chwech Sepsis i'n Cleifion Mewnol ac yn ein Hadrannau Brys. Mae Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn adolygu hyn ar hyn o bryd. Mae data'r Adran Achosion Brys wedi ailgychwyn ym mis Medi 2021 er y dylid edrych yn ofalus ar ffigurau ar hyn o bryd.

Cefndir / Background:

Mae tudalennau Crynodeb Gweithredol y QAP yn datgan y perfformiad yn erbyn y mesurau allweddol a geir yn Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori Byrddau Iechyd i ddal i fonitro perfformiad yn unol â'r mesurau a geir yn Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2020-21 nes caiff Fframwaith Cyflawni GIG Cymru ar gyfer 2021-22 ei gyhoeddi'n ffurfiol. Cafodd Fframwaith Cyflawni GIG Cymru ar gyfer 2021-22 ei gyhoeddi'n ffurfiol ar 1af Hydref 2021. Caiff y mesurau allweddol eu cynnwys yn yr Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad o fis Ionawr 2022 ymlaen.

Mae'r Mesurau Cyflawni Cenedlaethol yn deillio o'r Fframwaith ac maent yn cyd-fynd â'r Nodau Pedwarplyg a geir yn 'Cymru Iachach', sef cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae'r Mesurau Cyflawni Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol, sy'n cefnogi 'Cymru Iachach' a Chynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Ar ôl nifer o weithdai a chyfarfodydd adeiladol gydag aelodau'r Bwrdd, mae'r gyfres o adroddiadau perfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu hadolygu i gynnwys metrigau mwy cynhwysfawr, yn ogystal â data meincnodi perthnasol.

Mae cynhyrchiad yr adroddiadau hefyd yn cael ei adolygu ac rydym yn gweithredu proses awtomataidd a fydd yn cefnogi dangosfwrdd perfformiad Bwrdd Helath gydag ymarferoldeb i ddrilio i lawr i'r data mwy gronynnog i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Mae'r adolygiadau atebolrwydd chwarterol yn parhau a bydd unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r trafodaethau model gweithredu yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiadau atebolrwydd yn y dyfodol a'r adroddiadau perfformiad diwygiedig.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Bydd cyflawni'r mesurau yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar sefyllfa ariannol y Bwrdd.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Mae pandemig COVID-19 wedi esgor ar nifer o risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r ddarpariaeth gofal ar draws system gofal iechyd.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi i'r Bwrdd Iechyd

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Ni wnaed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr Adroddiad.

Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Bwrdd Iechyd 18 Tachwedd 2021
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad **Report Title:**	Adroddiad Monitro'r Cynllyn Gweithredol 2021-22 Sefydle 30.09.2021
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Responsible Director:**	Sue Hill Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Awdur yr Adroddiad **Report Author:**	Ed Williams – Pennaeth Asiwriant Perfformiad
Craffu blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Mae'r adroddiad hwn wedi cael eu graffu a'i gymeradwyo ar y 14.10.2021 gan y Bwyllgor Partneriaeth, Pobol ac Iechyd y Poblogaeth ac ar y 28.10.2021 gan Bwyllgor Perfformiad, Cyllid & Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r fersiwn hon o'r adroddiad wedi'i diweddaru wrth i wybodaeth bellach ddod ar gael. Manylir ar y newidiadau a wnaed i'r adroddiad ar dudalen rheoli fersiwn yr Adroddiad.
Atodiadau **Appendices:**	1. Rhaglen Cynllyn Blynyddol cammau'r cynllun.

Argymhelliad / Recommendation:

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r addroddiad.

Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer Trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**	**x**	**Er gwybodaeth For Information**	**x**
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						**N**	

Sefyllfa / Situation:

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys hunanasesiad gan arweinwyr gweithredol o'r cynnydd sydd ar waith o ran cyflawni'r prif gamau a nodir yng Nghynllun Gweithredol 2021/22 fel yr oedd hyd at 30.09.2021.

Cefndir / Background:

Mae arweinnyddion gweithredol yn adolygu yr cammau sydd wedi eu asseinio iddynt ac yn nodi'r COG yn dirbynnu ar gynnydd hyd at diwedd pob chwarter. Lle mae cam wedi ei gwbwlhau, mae e yn gael ei COG yn borffordd. Lle mae yna risc i gwbwlhau cam, bydd yn cael ei COG yn goch neu'n oren, a bydd naratif byr yn cael ei gynnwys.

Mae'r Tîm Perfformiad yn gweithio gydag Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Cynllunio i adolygu a chryfhau'r broses fonitro ac maent yn bwriadu cael iteriad newydd o'r Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredol pan fyddwn yn cyflwyno'r sefyllfa Chwarter 3 yn gynnar yn 2022.

Rydym hefyd yn adolygu'r Cyfarfodydd a'r prosesau Adolygu Atebolrwydd gyda'r bwriad o gryfhau goruchwyliaeth, craffu a chefnogaeth. Bydd y rhain yn parhau ar ôl gweithredu'r model gweithredu a ddymunir yn 2022.

RAG	End of Quarter	By expected delivery date	Requirements depending on RAG rating given
Red	Off track, serious risk of, or will not be achieved	Not achieved	Where RAG given is Red: A concise narrative explaining what the issues are, what is being done to resolve them and the level of risk to successful delivery of the Programme within the agreed timescale is provided.
Amber	Some risks being managed	Not Applicable	Where RAG given is Amber: A concise narrative explaining what the issues are, what is being done to resolve them and the level of risk to successful delivery of the Programme within the agreed timescale is provided.
Green	On track, no real concerns	Not Applicable	Where RAG is Green: No additional information required
Purple	Achieved	Achieved	Where RAG is Purple: No additional information required
Navy Blue	N/A	Actions that weren't reported in Q1 but are included from Q2 onwards following a review of the 2021/22 priority actions'	
N/A	Where the Programme or Action is not due to commence in the current reporting period.		
TBC	Where the RAG rating for the Programme or Action has not been signed off in time for publication of the report.		

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae cyflawni'r camau gweithredu yn allweddol i weithrediad Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd 2021/22, sydd wedi cael ei ddatblygu mewn cyntundeb a strategau lleol ac cenedlaethol – 'Byw'n Iachach Aros yn Iach ac 'Cymru Iachach'.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Amherthnasol

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Mae cyflawni'r cynllun gweithredol o fewn y gyllideb a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn rhan o sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n dda a bod gofal yn cael ei ddarparu'n effeithiol o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Mae'r sgôr COG yn adlewyrchu'r risg i gyflawniad y camau gweithredu allweddol.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar ran y Bwrdd Iechyd.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Mae'r cynllun gweithredol wedi derbyn Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Dyletswydd Economaidd-cymdeithasol.

Bydd cynlluniau sylfaenol ac achosion busnes y cyfeirir atynt yn y cynllun gweithredol yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl o ran cydraddoldeb / Iaith Gymraeg / ansawdd / llywodraethu data / digidol / hawliau plant a allai olygu bod angen cynnal asesiad effaith.

Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Health Board 18th November 2021
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Public
Teitl yr Adroddiad **Report Title:**	Finance Report Month 6 2021/22
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Responsible Director:**	Sue Hill, Executive Director of Finance
Awdur yr Adroddiad **Report Author:**	Tim Woodhead, Operational Finance Director
Craffu blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Executive Director of Finance
Atodiadau **Appendices:**	None

Argymhelliad / Recommendation:

It is asked that the report is noted.

Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate

Ar gyfer penderfyniad/cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer Trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**	✓	**Er gwybodaeth For Information**	

Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol **Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable**	**N**

Sefyllfa / Situation:

The purpose of this report is to provide a briefing on the draft unaudited financial performance of the Health Board as at September (Month 6) 2021/22.

Cefndir / Background:

In line with Welsh Government guidance, the draft plan was revised in Quarter 1 to refine and develop the triangulation of activity, workforce and financial plans, while maintaining the focus on the six key objectives described in the draft plan. The revised financial plan submitted to Welsh Government in June would deliver a balanced position at the year end.

We have tested our assumptions in the original plans and refreshed our forecasts accordingly with the divisional teams and will continue to do so as the operational position develops. This may include the use of additional outsourcing, or expenditure on interim resource or consultancy, to progress some of the larger schemes.

The Health Board's plans for 2021/22 include the £82m strategic support funding notified by Welsh Government last year (£40m to cover the deficit and £42m strategic support) and the £19.9m COVID-19 Recovery Plan funding. Together, these will be used to improve performance, reduce waiting lists and drive a programme of transformation linked to a sustainable clinical model for North Wales.

Asesiad / Assessment:

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

This paper aligns to the strategic goal of attaining financial balance and is linked to the well-being objective of targeting our resources to those with the greatest need.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Not applicable – report is for assurance only

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Financial Position

	Month 6 £m	YTD £m	Forecast £m
Actual Position	0.0	0.0	0.0
Planned Position	0.0	0.0	0.0
Variance	0.0	0.0	0.0

The in-month position is break even, which also brings the cumulative position to break even. This reflects the additional funding announced in the recent touchpoint meeting with Welsh Government, which offsets the impact of the undelivered savings from 2020/21 and supports the delivery of a balanced position for the full year.

The total impact of COVID-19 in September is £7.0m (£42.9m for the year to date). Welsh Government income has been anticipated to fully cover these costs, giving a nil impact on the financial position.

	Actual M01 £m	Actual M02 £m	Actual M03 £m	Actual M04 £m	Actual M05 £m	Actual M06 £m	Actual YTD £m	Forecast 2021/22 £m
Testing	0.1	0.2	0.2	0.3	0.4	0.4	1.6	4.1
Tracing	1.1	1.0	1.0	0.9	1.1	1.1	6.2	14.4
Mass COVID-19 Vaccinations	1.7	1.5	2.0	0.8	1.0	0.9	7.9	13.7
Extended FLU Vaccinations	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.2
Field Hospital/Surge	0.3	0.7	0.2	0.5	(0.3)	0.0	1.4	1.4
Cleaning Standards	0.0	0.0	0.0	0.0	0.5	0.1	0.6	1.8
Other Costs	4.5	3.6	4.5	6.3	4.0	4.6	27.5	73.2
Total COVID-19 costs	**7.7**	**7.0**	**7.9**	**8.8**	**6.7**	**7.1**	**45.2**	**110.8**
Non Delivery of Savings	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Expenditure Reductions	(0.2)	(0.7)	(0.8)	0.1	(0.6)	(0.1)	(2.3)	(3.1)
Slippage on Planned Investments	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Total Impact of COVID-19	**7.5**	**6.3**	**7.1**	**8.9**	**6.1**	**7.0**	**42.9**	**107.7**
Welsh Government Funding	(8.3)	(11.9)	(10.6)	(11.5)	(9.4)	(9.8)	(61.5)	(143.5)
Impact of COVID-19 on Position	**(0.8)**	**(5.6)**	**(3.5)**	**(2.6)**	**(3.3)**	**(2.8)**	**(18.6)**	**(35.8)**

The forecast full year impact of COVID-19 is currently £110.8m and an equivalent value of income has been anticipated from Welsh Government to fully cover the cost, so there is no impact on the overall Health Board position.

As additional modelling data for COVID-19 is received, and in line with the refresh of the financial plan, this forecast will be revised and updated. There will however remain a degree of uncertainty around forecasts as situations develop, particularly regarding the impact of variants of concern on hospitalisations.

Forecast

The forecast position has been updated to recognise the additional funding to cover the impact of the undelivered savings from 2020/21 and this means that the Health Board is forecasting a balanced position for the year.

Expenditure related to the £30.0m funding for the Performance Fund, the £12.0m Strategic Support and the £19.9m COVID-19 Recovery Plan are included in the forecast, based on the phasing of costs in submitted business cases. These indicate a stepped increase in spend over the remaining months of the year. This cost profile is dependent on operational teams implementing approved

plans at pace. Actual performance against submitted businesses cases will be monitored on a monthly basis and used to inform future forecasts.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

There are four risks to the financial position, one valued at £0.4m and three where the value is yet to be determined. These risks are in relation to recruitment of staff; anticipated income not being fully funded; and increased energy prices.

There are two opportunities to improve the financial position, relating to potential one off accountancy gains and not being able to fully utilise all of the additional funding provided by Welsh Government.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance
Not applicable.

Asesiad Effaith / Impact Assessment
Not applicable.

Bwrdd Iechyd

18 Tachwedd 2021

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Cabinet Covid-19
Dyddiadau'r cyfarfod:	15 Medi 2021 30 Medi 2021 14 Hydref 2021 28 Hydref 2021
Enw'r Cadeirydd:	Mark Polin
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Jo Whitehead, Prif Weithredwr
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	• Diweddariad ar ymateb y Bwrdd Iechyd i Covid-19 • Penderfyniadau'r Tîm Gweithredol Rheoli Digwyddiadau (EIMT) i'w cadarnhau • Cynnal llywodraethu da yn ystod Covid-19
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn ystod y cyfarfodydd:	**15 Medi 2021**: Gwnaeth y Cabinet gefnogi penderfyniadau'r EIMT: • Cymeradwyo taliadau ychwanegol ar gyfer staff sy'n delio â chleifion yn ystod cyfnodau gŵyl y banc. • Adfer cyfyngiadau ymweld ar ysbytai sydd â lefelau uchel o heintiau nosocomiaidd, yn unol ag arweiniad cenedlaethol. • Cymeradwyo mesurau pellach i roi cymorth o ran adleoli staff i fynd i'r afael â phwysau ar y system, • Cymeradwyo archwilio a datblygu mesurau i gynorthwyo ymateb system gyfan i bwysau ar gartrefi gofal a gofal cartref. • Canslo gofal wedi'i gynllunio a chapasiti pan fo ymchwydd. **30 Medi 2021** • Byddai Cylch Gorchwyl Cabinet Covid-19 yn cael ei adolygu y tu allan i'r cyfarfod ac yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo. • Sefydlu clinigau brechu symudol i dargedu ardaloedd lle bo lefel y salw sy'n manteisio ar y brechlyn yn isel. • Roedd cynlluniau ar gyfer ymchwydd yn parhau i gael eu hadolygu er mwyn delio â phwysau ar y gwasanaeth. • Cefnogodd y Cabinet benderfyniad yr EIMT o ran lefelau staff Nyrsio: Roedd cynlluniau ar gyfer ymchwydd yn yr holl feysydd gwasanaeth wedi cael eu diwygio i gynnwys gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Roedd wardiau'n parhau i gael eu haddasu at ddibenion gwahanol mewn ymateb i'r galw.

	14 Hydref 2021 • Cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd i gael ei gynnull ar gyfer 18 Hydref 2021 er mwyn ystyried darparu'r Contract Offthalmoleg trwy gyflenwyr allanol. • Gwnaeth y Cabinet gefnogi penderfyniadau canlynol yr EIMT: – Ymestyn tâl ychwanegol goramser ar gyfer staff sy'n delio â chleifion tan 24 Hydref 2021. – Ymweliadau Ysbyty yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri i adlewyrchu safleoedd ysbytai eraill yn dilyn llacio o ran y sefyllfa'n ymwneud ag achosion. – Cynllunio capasiti ar gyfer ymchwydd i gael ei adolygu'n gyson. **28 Hydref 2021** • Gwnaeth y Cabinet gefnogi penderfyniadau canlynol yr EIMT: – Ymestyn taliadau ychwanegol am oramser tan 31 Hydref tra'n aros gwaith pellach ac arweiniad cenedlaethol – Newidiadau dros dro i wasanaethau MIU yn Ardal y Gorllewin i fynd i'r afael â phrinder staff – Cefnogi agor Ward Aberconwy a datblygu capasiti cartrefi gofal yn y Gorllewin a'r Dwyrain
Prif risgiau yn cynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	Byddai cynllunio ar gyfer ymchwydd yn parhau i gael ei adolygu'n gyson i gynnwys cynigion i agor gwelyau ychwanegol pe bai angen. Roedd gwaith hefyd yn parhau i gynorthwyo o ran rhyddhau cleifion sy'n ffit yn feddygol i amgylcheddau cymunedol.
Materion i gael eu cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim un
Materion i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Darparu'r Contract Offthalmoleg trwy Gyflenwyr Allanol
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Gwnaeth eitemau a ystyriwyd gan y Cabinet ystyried nifer o egwyddorion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy fel y'i nodir isod 1. Sicrhau cydbwysedd o ran yr angen byrdymor a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol; 2. Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; 3. Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu sylwadau; 4. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; a 5. Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Unrhyw benderfyniadau neu faterion gweithredol o'r EIMT lle bo angen eu cefnogi. Diweddariadau yn ôl yr angen
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	I'w gadarnhau

Bwrdd Iechyd

18 Tachwedd 2021

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Y Pwyllgor Archwilio
Dyddiad y cyfarfod:	28.09.21
Enw'r Cadeirydd:	Richard Medwyn Hughes, Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	• Cofnodion ac Adolygiad o'r Cofnod Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol • Manylion Toramodau o ran cyhoeddi papurau'r Bwrdd/Pwyllgor • Wedi derbyn yr adroddiad ar faterion a drafodwyd yn y sesiwn pwyllgor preifat flaenorol • Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Grŵp Rheoli Risg. • Cynllun Cadw a Dirprwyo mewn Argyfwng • Adroddiad Archwilio Mewnol – a oedd yn crynhoi 11 adolygiad sicrwydd a gwblhawyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, gyda: - un sicrwydd Sylweddol (gwyrdd) ar gyfer Safon Rheoli Hawliadau Cronfa Risg Cymru (20/21) - pum sicrwydd Rhesymol (melyn) ar gyfer: Hysbysiadau Diogelwch Cleifion/Rhybuddion/Rhybuddion Dyfeisiau Meddygol/Hysbysiadau Diogelwch Maes; adroddiadau allanol HACAS ac Ockenden: Cynnydd o ran argymhellion ac adrodd ar hynny; Adrodd ar fesur perfformiad i'r Bwrdd: Cywirdeb gwybodaeth; Systemau Cyfalaf; a Chydymffurfiaeth Statudol – Rheoli Asbestos. - dim sicrwydd Cyfyngedig (oren); a - dau Sicrwydd ddim yn berthnasol (llwyd) ar gyfer: Iechyd a Diogelwch – Adolygu cynnydd ar y cynllun gweithredu dadansoddiad o'r Bwlch; ac Adolygu Anfonebau Diogelwch. • Wedi cael adroddiad diweddaru cynnydd gan Archwilio Cymru ynghyd ag adroddiadau ar - Asesiad o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyraniad ariannol strategol o £297 miliwn gan Lywodraeth Cymru; - Cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru - Ymateb rheolwyr i'r Adolygiad o Iechyd Cymru; Trefniadau Llywodraethu Gwasanaethau Arbenigol; a - Adroddiad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. • Rhestr Hawliadau Ariannol (Sesiwn Gyhoeddus a Phreifat) • Adroddiad Atebolrwydd Perfformiad • Adolygiad Blynyddol o Gofrestri Rhoddion a Lletygarwch a Datganiadau o Fudd

	• Adroddiad Sicrwydd Deintyddol • Adroddiad Cydymffurfiad Ariannol • Diweddariad ar Argymhellion yr Archwiliad Mewnol/Allanol
Y prif elfennau sicrwydd a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	Y Pwyllgor Archwilio: • Wedi cael sicrwydd ar y mater a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ynghylch contractwr ar y fframwaith contractwyr a oedd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. • Wedi cael Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd gan y Grŵp Rheoli Risg. • Wedi argymell cymeradwyo'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Achosion Brys i'r Bwrdd. • Wedi cael adroddiad cynnydd yr Archwiliad Mewnol. • Wedi cymeradwyo'r trefniadau diwygiedig ar gyfer dosbarthu adroddiad trafodaeth ac adroddiad archwilio mewnol drafft. • Wedi cael ac wedi nodi'r cynnydd diweddaraf gan Archwilio Cymru ynghyd ag adroddiadau eraill fel y manylir uchod. • Wedi cael ac wedi nodi'r Adroddiad Atebolrwydd Perfformiad. • Wedi cael yr adroddiad Datgan Buddiannau/Rhoddion a Lletygarwch Blynyddol ar gyfer 2020/21. • Wedi nodi'r Adroddiad Sicrwydd Deintyddol. • Wedi cymeradwyo'r Colledion a'r Taliadau Arbennig fel y nodir yn yr adroddiad Cydymffurfiad. • Wedi nodi Adroddiad y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol (LCFS). • Wedi cael yr Adnodd Tracio Argymhellion Archwiliad, ac wedi nodi'r cynnydd a'r camau gweithredu a amlinellwyd; ac wedi nodi'r camau risg-uchel sy'n hwyr.
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	Trafododd y Pwyllgor y mater a godwyd ynghylch y tîm LCFS yn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru gydag achos yn ymwneud ag unigolyn a fethodd â datgelu ei euogfarnau blaenorol pan gafodd ei recriwtio i weithio yn y Bwrdd Iechyd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod adolygiad ar recriwtio yn parhau, a'i fod yn cael ei ehangu y tu hwnt i wirio geirdaon a oedd yn risg a gafodd ei nodi.
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Nid oedd unrhyw adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig.
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	• Rhestr Hawliadau Ariannol (sesiwn agored) – i nodi'r rhestr o hawliadau a gafodd eu cymeradwyo. • Wedi argymell y Cynllun Cadw a Dirprwyo Achosion Brys i'r Bwrdd i'w gymeradwyo (mae hon yn eitem ar wahân ar agenda'r Bwrdd).
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan	Pwrpas y Pwyllgor Archwilio yw cynghori a sicrhau'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol bod trefniadau effeithiol ar waith – drwy lunio a gweithredu system sicrwydd y Bwrdd Iechyd. O'r herwydd, mae'r

Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eu hystyr ehangaf, ond mae'r ffocws yn benodol ar sicrhau bod adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn cefnogi'r egwyddor o neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd a: • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd • Cofrestr Risgiau Corfforaethol • Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaethol • Cael Adroddiad archwilio blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	14.12.21

F1.0

Bwrdd Iechyd 18.11.21	GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board *Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol*

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
Dyddiad y cyfarfod:	2il Tachwedd 2021
Enw'r Cadeirydd:	Lucy Reid, Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol o'r Bwrdd
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio / Dirprwy Brif Weithredwr
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	Derbyniodd y Pwyllgor y canlynol: • Stori yn dilyn profiad claf a oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd • Blaenoriaethau Interim y Strategaeth Ansawdd am y deuddeg mis nesaf • Y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Trefniadau Diogelu newydd er Diogelu Rhyddid a'r camau a gymerwyd i baratoi • Adroddiad Lefelau Staff Nyrsio ar y ddyletswydd statudol i gyfrifo lefelau staffio ar wardiau perthnasol • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol • Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad mis Medi 2021 • Adroddiad Amlygu Ansawdd misoedd Awst a Medi 2021 • Diweddariad Covid 19 gan gynnwys cyfraddau trosglwyddo yn y gymuned a chynnydd yn erbyn y rhaglen frechu • Gwobrau Ansawdd, Cyflawniadau a Chydnabyddiaeth, yn tynnu sylw at gyflawniadau staff • Diweddariad y Grŵp Llywio Fasgwlaidd gan gynnwys y cynllun gweithredu diwygiedig a chylch gorchwyl y Grŵp Llywio Fasgwlar • Adroddiad gweithredol y Gwasanaethau Plant • Adroddiad ar Gyflawni'r Rhaglen Imiwneiddio hyd at fis Medi 2021 • Diweddariad yn erbyn y Cynllun Gweithredu Hunanasesu Llywodraethu Ansawdd Derbyniwyd yr adroddiadau blynyddol canlynol a gellir eu gweld drwy'r DDOLEN hon • Diogelu rhag Ymbelydredd 2020/21 • Adroddiad Blynyddol ar Roi Organau • Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru • Adroddiad Archwilio Clinigol

Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:	• Roedd yr adroddiad ar gyflawni'r rhaglen imiwneiddio yn rhoi'r cynnydd ar ddarparu rhaglenni imiwneiddio a brechu allweddol. Mae rhaglenni imiwneiddio a ffliw i blant wedi parhau i gael eu darparu gyda chynnydd yn y nifer sy'n manteisio arnynt ar draws sawl ardal. Mae hyn yn arbennig o galonogol o ystyried y pwysau ychwanegol ar adnoddau o ganlyniad i'r brechu rhag Covid-19.
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Tynnodd yr Adolygiad Sicrhau Ansawdd ar Ward Morfa, Ysbyty Llandudno sylw at nifer o feysydd sy'n destun pryder o ran llywodraethu ac arferion. Cynhaliwyd yr adolygiad oherwydd pryderon a godwyd gan fyfyrwyr nyrsio sy'n gweithio ar y ward. Mae'r adolygiad wedi arwain at nifer o argymhellion yn ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu, diogelu ac adrodd. • Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi cynnal adolygiad o ddiogelwch cleifion, preifatrwydd, urddas a phrofiad cleifion sydd wedi cael oedi wrth drosglwyddo rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r ysbyty. Roedd yr adolygiad yn cydnabod y pwysau sylweddol ar draws y system gyfan yng Nghymru a'r mentrau amrywiol sydd ar waith ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, mae AGIC wedi nodi nad yw'n glir pa mor effeithiol fu rhai o'r cynlluniau. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. • Codwyd pryderon ynghylch rheoli Sepsis yn yr adran achosion brys. Nododd yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad broblemau gyda chasglu data. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd yn glir ai cipio data oedd y broblem ynteu cydymffurfio â bwndel Sepsis 6 ac mae wedi gofyn am ragor o waith. • Cafodd yr Adroddiad Budd y Cyhoedd ar Wasanaethau Wroleg ei dderbyn a'i drafod mewn sesiwn breifat ym mis Medi. Cefnogodd y Pwyllgor adolygiad annibynnol gan y coleg brenhinol o'r gwasanaeth wroleg i ddarparu dadansoddiad manwl o berfformiad y gwasanaeth a diogelwch cleifion. • Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar wasanaethau fasgwlaidd a chymeradwyodd gylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Llywio newydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dal i boeni am ddatblygiad cynllun gweithredu arall dan arweinyddiaeth newydd ac nid oes ganddo sicrwydd o hyd mewn perthynas â'r gwasanaeth ei hun. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r ffocws ar gynnydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddarparu adroddiadau yn y dyfodol.
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) • Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) • Ymgysylltiad (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	• Argymhellodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau y dylid trosglwyddo adroddiadau ar Staff Nyrsio (gan gynnwys adroddiadau i'r Is-adran Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl) i gylch busnes y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y

	Boblogaeth fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am y gweithlu/pobl. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth yn cyfeirio unrhyw faterion diogelwch sylweddol at y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau a materion ariannol at y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. • Hysbyswyd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau y bydd yr adroddiad ar Ymweliad Llywydd Coleg Brenhinol y Meddygon â Wrecsam Maelor yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Mae'r Pwyllgor wedi gofyn, gyda chefnogaeth y Cadeirydd, am gryfhau'r adrodd uniongyrchol i'r Bwrdd ar ansawdd a diogelwch. Cytunir ar y paramedrau adrodd i sicrhau bod y Bwrdd yn cael golwg briodol ar ansawdd a diogelwch tra bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y themâu a'r dysgu cyffredinol i roi sicrwydd i'r Bwrdd.
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy: 1. Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol; 2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; 3. Cynnwys y rhai sydd â buddiant a gofyn am eu barn; 4.Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; ac 5.Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill.
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o eitemau rheolaidd / sefydlog ynghyd â: • Dadansoddiad thematig o wasanaethau seicolegol ar draws BC gyfan • Dysgu o ddigwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaethau • Adroddiad yr Archwiliad Mewnol i HASCAS • Adroddiad ar Weithiwyr Unigol • Gwasanaeth Cymunedol – dysgu o fater Ward Morfa (Llandudno)
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	11.1.22

Bwrdd Iechyd 18.11.21	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board *Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol*

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad y cyfarfod:	28.10.21
Enw'r Cadeirydd:	John Cunliffe Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Sue Hill Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	*Nododd* y cyfarfod cyntaf yr adroddiadau canlynol: • Adroddiad Trawsnewid Gwasanaethau : Gofal wedi'i Drefnu a Gofal Heb ei Drefnu • Adroddiad blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth 2020/21 • Adroddiad DPA Llywodraethu Gwybodaeth • Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. • Adroddiadau cyllid Misoedd 5 a 6 • Adroddiad sicrwydd Contractau Allanol • Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf mis 6 • Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredol 2021-22 – Safle ar 30 Medi 2021 • Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad • Adroddiad Statws Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf • Y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal wedi'i Gynllunio • Traciwr Busnes • Adroddiadau monitro Llywodraeth Cymru Misoedd 5 a 6 *wedi'i adolygu* • Cylch Gorchwyl • Y prif risgiau sydd wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd *wedi'i gymeradwyo* • Cymorth ar gyfer Achos Busnes Refeniw System Gweinyddu Cleifion Cymru ac argymhellion i Opsiwn 3 gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (Cais am Gyllid Allanol) • Achos Amlinellol Strategol Conwy/Cyffordd Llandudno i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 18.11.21

	Adroddwyd bod Cam Gweithredu'r Cadeirydd wedi'i gyflawni er mwyn *cymeradwyo* prydlesi swyddfeydd ar gyfer tîm Fframwaith Gwella ac Ymyrryd wedi'i Dargedu y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed am gyfnod cychwynnol o chwe mis. Ystyriodd y pwyllgor y materion canlynol mewn sesiwn breifat: • Dyfarniad Contract Practis Meddygon Teulu yn ardal Conwy • Contract Asesu Niwroddatblygu • Contract Gwasanaeth a Reolir ar gyfer y Gwyddorau Gwaed Awtomatig • Achos busnes Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RISP) • Achos busnes yr adran achosion brys
Y prif elfennau sicrwydd a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	• Nodwyd bod y gwaith o adolygu a diweddaru Canllawiau maes allweddol y BAF yn mynd rhagddo, gan gynnwys ymgynghori â'r Good Governance Institute am eu hargymhellion a'u hadborth. • Roedd disgwyl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. • Roedd hyder o ran cyflawni'r rhagolwg arbedion, er na fyddai'r rhan fwyaf yn rheolaidd. • Cyflwynwyd traciwr arian perfformiad i'r adroddiad Cyllid, a oedd yn dangos blaenoriaethu cynlluniau amgen i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio pan fo oedi o ran y cynllun. • Roedd llythyr gan y Swyddog Atebol i gael ei godi ynglŷn â llithriant o'i gymharu â'r rhaglen wreiddiol a gynlluniwyd. • Roedd hyder yn y rhagolwg o gyflawni'r Terfyn Adnoddau Cyfalaf erbyn diwedd y flwyddyn. • Roedd y ddarpariaeth o wasanaethau brechu wedi symud ymlaen yn gadarnhaol, gyda dros £1m o ddosau'n cael eu gweinyddu. • Roedd mesurau Gofal Sylfaenol ychwanegol i gael eu cyflwyno'n fuan i adroddiad y PA er mwyn gallu monitro gwelliannau • Roedd y Pwyllgor yn falch o gael sicrwydd y byddai adroddiad Lles Staff yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth nesaf, ac yn dilyn hynny i'r Bwrdd Iechyd, gan fod hwn yn faes pwysig roedd y Bwrdd yn dymuno cael ei gwybod amdano.
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Cytunwyd y dylid cyfuno'r risgiau blaenorol i'r Gyllideb a'r Cynllun Blynyddol i greu risg ddiwygiedig BAF21-20 – Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022/25, a fyddai'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth • Codwyd y sgôr risg targed ar gyfer BAF21-17: Datblygu Stadau ac Asedau o 6(3x2) i 9(3x3) i gyd-fynd â'r archwaeth am risg • Mae'r Bwrdd wedi gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i roi'r prosiect System Gweinyddu Cleifion Cymru ar waith, gan ei fod wedi'i ohirio ar hyn o bryd. Cytunwyd y dylid

	recriwtio 13 o staff ychwanegol yn unol â'r achos busnes gan ystyried bod y tebygrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod y cais am gyllid yn isel. Y risg ariannol yw diffyg ariannol o hyd at £2.2m dros 4 blynedd. • Tynnwyd sylw at risgiau'n ymwneud â materion recriwtio staff parhaus a phrisiau ynni uwch posibl yn yr adroddiadau Cyllid. • Nid oedd y manteision o fynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal wedi'i gynllunio yn cael eu gwireddu ar hyn o bryd yn ôl y disgwyl. • Tynnwyd sylw at fregusrwydd y farchnad cartrefi nyrsio fel her sylweddol a oedd yn cael sylw mewn partneriaeth â Thîm Gofal Iechyd Parhaus Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Awdurdodau Lleol. • Yn dilyn trafodaeth yng ngweithdy'r bwrdd, tynnwyd sylw at risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â chwmpas y gwaith ar gyfer Wrecsam Maelor. Mae'r rhain yn cael sylw drwy ofyn am gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gyflymu elfennau o'r gwaith. Bydd achos busnes ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor (ac wedyn i'r Bwrdd) ynglŷn â'r agweddau ar barhad busnes maes o law. • Yn seiliedig ar waith gwella Wrecsam Maelor, mae risgiau wedi cael eu nodi o ran awyru wardiau ac ardaloedd sydd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau gyda rhaglen cydymffurfio YG. O ystyried cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, gellir bod cynnydd sylweddol mewn costau. Felly, ystyriwyd ei bod yn ddoeth ychwanegu 'Tuedd Optimistaidd' at y costau sy'n cynyddu'r amrediad posib i rhwng £250m a £300m o'r amcangyfrif gwreiddiol o £213m. • Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith nad oedd y tîm gweithredol wedi mynd i'r afael â 28 o feysydd lle'r oedd perfformiad wedi dirywio, fel mater o bwys yn yr OPMR." • Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn ag ymddygiad mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, a gofynnodd i'r Bwrdd sut y mae'n mynd i'r afael â hyn. • Nodwyd dirywiad y gwasanaeth strôc. Fodd bynnag, roedd gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r maes hwn ee gwelyau wedi'u neilltuo, cyflwyno rhwydwaith Gwella Strôc Cymru Gyfan wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru. • Roedd y dirywiad yn y ddarpariaeth Gofal wedi'i Drefnu a Heb ei Drefnu yn peri pryder, ac roedd y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt • Roedd adroddiad parodrwydd y Gaeaf yn tynnu sylw at y 'drws ffrynt' a gofal critigol fel y risg uchaf a allai olygu bod angen gwneud rhagor o waith ar y cynllun ymchwydd. Fodd bynnag, y risg fwyaf i'r ddarpariaeth oedd materion staffio. Fe wnaeth y Pwyllgor gydnabod bod cynllunio ar gyfer y Gaeaf yn cael ei ystyried ar y lefelau uchaf yn fewnol ac yn genedlaethol.
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella	• Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant)

Ymyriadau wedi'u Targedu	
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Rhoddodd y Pwyllgor sylw dyledus i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. ▪ Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol; ▪ Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; ▪ Cynnwys y rhai sydd â buddiant a gofyn am eu barn; ▪ Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu;
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â'r canlynol • Achosion busnes • Adnewyddu'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth • Cynllunio Ariannol a Chyllideb • Adroddiad chwarterol Gwasanaethau a Rennir • Adroddiadau Cyllid Gweithredol Adrannol • Adroddiad sicrwydd Cadeirydd Gwarcheidwad Caldicott • Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Goruchwylio Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	23.12.21

Bwrdd Iechyd
18.11.21

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	**Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth**
Dyddiad y cyfarfod:	14.10.21
Enw'r Cadeirydd:	Linda Tomos, Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	Nododd y cyfarfod cyntaf yr adroddiadau canlynol: • Cynnydd adroddiad monitro'r cynllun gweithredol ar 30.9.21 • Diweddariad Strategaeth Byw'n iachach, Aros yn Iach • Datblygu'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r wybodaeth ddiweddaraf am welliannau yn Arolwg Staff GIG Cymru 2020 • Adroddiad chwarter 1 Dangosfwrdd Digidol Integredig 2021/22 • Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Conwy a Sir Ddinbych a Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal • Adroddiad Profi, Olrhain a Diogelu adolygwyd • y prif risgiau a neilltuwyd i'r Pwyllgor o fewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol cytunwyd • newidiadau i'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf a bydd yn darparu'r fersiwn ddiweddaraf i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.
Y prif elfennau sicrwydd a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	• yn dilyn gweithdy Bwrdd, bydd Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft wedi'i gostio yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Rhagfyr • Roedd ymgynghoriad wedi dechrau ar gyfer adnewyddu strategaeth Byw'n Iachach, Aros yn Iach • Roedd yr is-adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar y trywydd iawn i gyflawni'r Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ddrafft yn y cyfarfod nesaf. • Roedd Pennaeth Cydweithredu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymuno â'r cyfarfod a dywedodd y byddai'r gronfa refeniw, a oedd wedi'i chwmpasu ar gyfer 3 blynedd yn y gorffennol, wedi'i chwmpasu ar gyfer 5 mlynedd ar gyfer y dyfodol.

Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Nodi'r Pwyllgorau sy'n gyfrifol am fonitro cynlluniau gweithredol i'w cynnwys mewn adroddiadau OPM yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu hystyried yn briodol • Mae angen gwneud mwy o waith ar Bartneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth mewn perthynas â'r strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol sy'n cael ei datblygu • Roedd materion recriwtio'n parhau gyda'r risgiau'n cael eu hamlygu mewn amryw o adroddiadau • Byddai unrhyw effaith ganlyniadol ar oedi tîm cenedlaethol CANSIC yn cael ei hadrodd i'r cyfarfod nesaf • Roedd risgiau'r Cynllun Blynyddol a'r Gyllideb wedi'u cyfuno • Codwyd pryder mewn perthynas â chau risg gorfforaethol CRR20-07 Capasiti, adnoddau a galw seilwaith gwybodeg, gan y teimlwyd nad oedd yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y BAF.
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) • Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) • Ymgysylltiad (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Rhoddodd y Pwyllgor sylw dyledus i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. 1. Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol; 2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; 3. Cynnwys y rhai sydd â buddiant a gofyn am eu barn; 4.Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; ac 5.Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill.
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	• Cynllun Tymor Canolig Integredig Drafft • Cylch Busnes • Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Drafft • Diweddariad ar y dangosfwrdd digidol • Adroddiad Cyfarwyddwr Gofal Iechyd Digidol Cymru • Cynaliadwyedd amgylcheddol a datgarboneiddio • Strategaeth rheoli asedau • Strategaeth Recriwtio a Chadw • Adroddiad blynyddol Ymchwil a Datblygu • Diweddariad ar arloesi • Statws Prifysgol

	• Cynnydd yr Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd • Diweddariad ar y Cynllun Digwyddiadau Mawr / Deddf Argyfyngau Sifil Posibl • Adroddiad Gwarcheidwad i Godi Llais • Adroddiad perfformiad chwarterol y gweithlu • Adroddiad monitro cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg • Diweddariad ar y rhaglen Profi ac Olrhain • Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol • Diweddariad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	9.12.21

Bwrdd Iechyd 18 Tachwedd 2021	GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board *Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol*

Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cynghorol

Enw'r Grŵp Cynghorol:	Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Dyddiad y cyfarfod:	20.09.21
Enw'r Cadeirydd:	Clare Budden, Gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (cytunwyd ar adroddiad y Cadeirydd â'r Gweithredwr Arweiniol)
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Clive Caseley, Cyfarwyddwr Dros Dro Partneriaethau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd:	• Diweddaru Byw'n Iach Aros yn Iach • Cynllunio ar gyfer 2022/25 • Rhaglen Buddsoddi a Thrawsnewid Iechyd Meddwl • Gweithredu'r System 111 • Diweddariad gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cyngor / adborth allweddol i'r Bwrdd:	Mewn perthynas â Diweddaru Byw'n Iach Aros yn Iach, mae'r broses ymgysylltu wedi dechrau ac mae'r tîm yn awyddus i ofyn am farn gan amrywiaeth fawr o grwpiau lleol. Bydd canlyniad y broses diweddaru yn cyfrannu i'r cynllun gwasanaethau clinigol a'r broses cynllunio tymor canolig. Roedd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid: • wedi cydnabod yr ymgynghoriad a nodi bod angen gwella'r ddolen adborth er mwyn sicrhau bod pobl yn cael ymateb sy'n nodi pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth. Mae'n bwysig bod yr elfen ymgysylltu yn y broses yn dod yn ddolen ddi-dor yn y dyfodol. • wedi dweud y byddai gweithredu'r cynllun yn her yn nhermau gwella iechyd a llesiant wrth wynebu'r pwysau ac oedi presennol ar draws y sefydliad. Mae'r grŵp o blaid egwyddorion y diweddariad a byddai'n hoffi gweld pwyslais ar sicrhau newid. Mewn perthynas â Chynllunio ar gyfer 2022/25, canolbwyntir ar

	iechyd, llesiant ac anghydraddoldeb y boblogaeth ynghyd â'r ymateb i COVID. Bydd hyn hefyd yn cynnwys anghenion Iechyd Meddwl, ansawdd profiadau'r claf gan gynnwys canlyniadau cleifion a'r gallu i barhau i gyflawni agenda ymestynnol dros y tair blynedd nesaf. Roedd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid: • wedi nodi'r angen i gynnwys dolen adborth dda mewn prosesau ymgysylltu. • wedi tynnu sylw at ffyrdd i roi'r cynlluniau ar waith gan nodi eu bod yn ymwybodol iawn o'r pwysau a'r ôl-groniad sylweddol o ganlyniad i'r pandemig; yn ogystal â'r ffaith nad oedd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau a oedd ar gael o'r blaen. Mewn perthynas â'r Rhaglen Buddsoddi a Thrawsnewid Iechyd Meddwl, canolbwyntir ar ddull cydgysylltiedig i sicrhau bod cleifion yn rhan o lwybr i'r person cyfan. Mae'r broses o ddiweddaru Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wedi dechrau a'r bwriad cyffredinol yw datblygu modelau gofal newydd sy'n pontio sefydliadau a ffiniau. Roedd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid: • wedi mynegi diddordeb mewn gweld y grŵp yn cael ei ddefnyddio i roi prawf ar y defnydd o ddeunyddiau a phrosesau, er enghraifft, troi strategaethau'n ffeithluniau • wedi cytuno y byddai'n fuddiol cael diweddariad ar ôl chwe mis i gael gwybod sut mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith ar draws y sefydliad Cafodd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid gyflwyniadau hefyd ar Weithredu'r System 111 a diweddariad gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar weithio mewn partneriaeth.
Y Meysydd yn y Fframwaith Gwella a Dargedwyd ar gyfer Ymyrryd	• Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad • Ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid) • Iechyd Meddwl
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	• Cynllunio ar gyfer 2022/25 • Diweddariad ar Welliannau wedi'u Targedu • Dyletswydd economaidd-gymdeithasol / Cynllun hil a chydraddoldeb • Strategaeth y Trydydd Sector /Comisiynu • Diweddariad ar Ofal Sylfaenol BIPBC • Diweddariad ar Ofal wedi'i Gynllunio • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Dewisir eitemau penodol ar gyfer yr agenda yn nes at ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Dydd Llun 6 Rhagfyr 2021

Bwrdd Iechyd 18 Tachwedd 2021	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board *Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol*

Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cynghori

Enw'r Grŵp Cynghori:	Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol
Dyddiad y cyfarfod:	3 Medi 2021
Enw'r Cadeirydd:	Gareth Evans, Cynrychiolydd Gwasanaethau Therapi
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd

Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd:

H21/27 Materion yn codi a chofnod cryno o'r camau gweithredu

H21/27.02 Cododd y Cadeirydd y mater o ddisodli dau gynrychiolydd o'r HPF, sef y Cynrychiolydd Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Cynrychiolydd Gofal Eilaidd a Thrydyddol, sydd ar hyn o bryd yn swyddi gwag ar y Fforwm. Cadarnhaodd yr Arweinydd Gweithredol, Adrian Thomas, nad oedd Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol (OMD) wedi cael unrhyw enwebiadau ar gyfer y naill swydd na'r llall; fodd bynnag, mae sgyrsiau gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol newydd, Nick Lyons a'i dîm yn parhau er mwyn adnabod y ddau aelod newydd a bydd y cofnod camau gweithredu'n cael ei ddiweddaru'n unol â hynny.

H21/28 Cyflwyniad i Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd

Croesawodd y Cadeirydd Louise Brereton (LB) yn dilyn cyflwyno aelodau'r Fforwm a oedd yn bresennol. Cyflwynwyd trosolwg byr o rôl Ysgrifennydd y Bwrdd gan LB gydag eglurder ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau llywodraethu. Cynigiodd LB ei chefnogaeth a'i harweiniad i aelodau'r Fforwm; cynigiodd hefyd gymryd rhagor o gwestiynau y tu allan i'r cyfarfod os oedd yr aelodau'n dymuno hynny.

Diolchodd y Cadeirydd yn fawr iawn i LB am ymuno â'r Fforwm ar gyfer y cyflwyniad llawn gwybodaeth.

H21/29 Diweddariad Iechyd y Cyhoedd – Teresa Owen,

	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Croesawodd y Cadeirydd Teresa Owen (TO) i gyflwyno diweddariad ar Iechyd y Cyhoedd. Rhannwyd sleidiau'r cyflwyniad ag aelodau'r Fforwm cyn y cyfarfod, gan ddilyn y daith ym maes Iechyd y Cyhoedd rhwng 2018/19 a 2021/22 a thrafod y pwyntiau canlynol yn fanylach: • Covid 19 • POD/ TTP • Brechiadau • Anghydraddoldebau • Lles meddyliol • Y system iechyd cyhoeddus • Adfer (Adnewyddu) Daeth y cyflwyniad i ben gyda golwg ar y dyfodol a blaenoriaethau atal a llesiant wrth symud ymlaen i 2022/23. Cafwyd sesiwn holi ac ateb. Diolchodd y Cadeirydd yn fawr iawn i TO am ei hamser yn y cyfarfod ac am y cyflwyniad llawn gwybodaeth, a oedd yn cwmpasu pwnc mawr. Diolchodd TO i aelodau'r Fforwm a'u timau am eu holl waith caled a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. **H21/30 Diweddariadau ysgrifenedig y Cadeirydd a'r aelodau** H21/30.1 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Fferylliaeth Gymunedol H21/30.2 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Deintyddiaeth H21/30.3 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Optometreg H21/30.4 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Cadeirydd a Gwasanaethau Therapi H21/30.5 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Gwyddor Gofal Iechyd (HCS) H21/30.6 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Nyrsio H21/30.7 Diweddariad Cryno Ysgrifenedig HPF - Fferylliaeth a Rheolaeth Meddyginiaethau H21/30.8 Adroddiad Cryno Aelodau HPF – Menywod a Bydwreigiaeth **H21/31 Trafodaeth ynghylch cynrychiolaeth Ymyriadau wedi'u Targedu (TI) gan yr HPF** Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ynghylch y gofyniad i gynrychiolydd o'r HPF fynychu dau grŵp mewnol sydd wedi'u sefydlu, Grŵp Tystiolaeth y TI a Grŵp Canlyniadau'r TI. Bydd y

	ddau grŵp yn ystyried a yw'r canlyniadau a nodwyd yn y fframwaith gwella a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Yn dilyn trafodaeth a hunan-enwebiad gan y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, cytunwyd y bydd Fiona Giraud yn cynrychioli'r HPF yng nghyfarfodydd y Grŵp Tystiolaeth TI, a bydd Susan Murphy yn cynrychioli'r HPF yng nghyfarfodydd y Grŵp Canlyniadau TI yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth ynghylch cynrychiolaeth HPF, derbyniodd y Cadeirydd sylwadau ac awgrymiadau ynghylch yr angen i dderbyn diweddariadau ffurfiol o safbwynt llywodraethu'r rhaglen TI, ac ymgorffori hynny yng Nghylch Busnes HPF a fydd yn cael ei adolygu. Cafwyd trafodaeth ar wahân ynghylch agenda mis Rhagfyr, a chytunwyd y byddai gweithdy anffurfiol yn cael ei drefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd i ganolbwyntio ar ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), a fydd yn ei dro yn caniatáu amser ar gyfer diweddariad TI yng nghyfarfod mis Rhagfyr. **H21/32 Cyflwyniad i Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol** Croesawodd y Cadeirydd y cyfle i gael cynulleidfa gynnar gyda Dr Nick Lyons (NL) gan mai dim ond yn ddiweddar iawn y mae yn swydd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Cyflwynodd aelodau'r Fforwm eu hunain. Dilynwyd hyn gan gyflwyno'i hun a chrynodeb o'i brofiad proffesiynol blaenorol cyn ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mynegodd NL ei obaith o ran dyfodol BIPBC, yn enwedig o ran Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru ar y cyd â Phrifysgol Bangor, gyda'r nod o ddenu myfyrwyr israddedig i wneud dewis cadarnhaol i hyfforddi a chael addysg a gwneud ymchwil yng Ngogledd Cymru. Gyda chydweithrediad Prifysgol Wrecsam Glyndŵr ac Ysgol Feddygol Caer, gan greu hunaniaeth mewn addysg uwch, gyda lleoliad clinigol da, mae'n debygol iawn y byddant yn aros yn yr ardal, yn enwedig os oes cyfle i arallgyfeirio i addysg neu ymchwil. Cafwyd trafodaeth ar y potensial ar gyfer Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru, yn ogystal â sesiwn holi ac ateb. Diolchodd y Cadeirydd yn fawr iawn i NL am ei amser yn y cyfarfod.
Adborth / cyngor	• Cafodd y Fforwm ddiweddariad blynyddol gan Teresa Owen,

allweddol i'r Bwrdd:	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, a oedd yn edrych yn ôl ar y daith ym maes Iechyd y Cyhoedd rhwng 2018/19 a 2021/22 a'r cyfleoedd ar gyfer y dydodol. Nodwyd yr her sylweddol i'r tîm Iechyd y Cyhoedd yn sgil y pandemig; wrth sefydlu gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu a rhaglen frechu ar ben y blaenoriaethau presennol ar gyfer iechyd y cyhoedd. Mae'r Fforwm yn parhau i gefnogi ffocws strategol y Bwrdd Iechyd tuag at agenda atal a llesiant gan nodi bod y pandemig wedi ehangu'r her i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ein poblogaeth. • Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau'r Fforwm ynghylch datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, cytunwyd y byddai gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd i sicrhau cyngor a mewnbwn amserol i'r Bwrdd cyn ei gymeradwyo. • Croesawodd aelodau'r fforwm Dr Nick Lyons sydd wedi ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Mynegodd Dr Lyons ei obaith o ran dyfodol BIPBC ac, yn benodol, o ran Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Mae aelodau'r Fforwm yn gefnogol iawn i ddatblygiad o'r fath a'r cyfleoedd ehangach i bob proffesiwn adeiladu profiad lleoliad clinigol da er mwyn galluogi staff clinigol i aros a datblygu eu gyrfaoedd yn y rhanbarth • Trafododd aelodau'r Fforwm ohebiaeth gan y tîm Llywodraethu Corfforaethol o ran ymgysylltiad HPF â'r fframwaith gwella Ymyriadau wedi'u Targedu (TI). Cytunwyd y bydd Fiona Giraud, cynrychiolydd Bydwreigiaeth, yn cynrychioli'r HPF yng nghyfarfodydd Grŵp Tystiolaeth y TI, a bydd Susan Murphy, cynrychiolydd Ysbyty a Fferylliaeth Gofal Sylfaenol yn cynrychioli'r HPF yn y Grŵp Canlyniadau TI.
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) • Ymgysylltiad (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o eitemau sefydlog ynghyd â: • Trafodaeth Flynyddol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol • Diweddariad TI
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	3 Rhagfyr 2021

Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Bwrdd Iechyd 18 Tachwedd 2021
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad: **Report Title:**	Crynodeb o'r busnes a ystyriwyd mewn sesiwn breifat i'w adrodd yn gyhoeddus
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Responsible Director:**	Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd
Awdur yr Adroddiad **Report Author:**	Mrs Kate Dunn, Pennaeth Materion Corfforaethol
Craffu blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Dim
Atodiadau **Appendices:**	Dim

Y/N i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol **N**

Argymhelliad / Recommendation:

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer Trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**		**Er gwybodaeth For Information**	✓

Sefyllfa / Situation:

Adrodd mewn sesiwn gyhoeddus ar faterion a ystyriwyd yn flaenorol mewn sesiwn breifat

Cefndir / Background:

Mae Rheol Sefydlog 6.5.3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adrodd yn ffurfiol ar unrhyw benderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat i gyfarfod nesaf y Bwrdd mewn sesiwn gyhoeddus. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgor.

Asesiad / Assessment

Ystyriodd y Bwrdd Iechyd y materion canlynol mewn sesiwn breifat:

<u>23 Medi 2021</u>

- Achos Busnes Cymru Gyfan Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru

- Cynigwyr a Ffefrir ar gyfer y Fframweithiau Contractwyr
- Cynigydd a Ffefrir ar gyfer Darparu Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ar gontract Gwasanaeth Deintyddol Cyhoeddus ac Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru ym Mangor ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

18 Hydref 2021

- Dyfarnu Contract ar gyfer darparu Gwasanaeth Gofal wedi'i Gynllunio ar Gontract Allanol – Offthalmoleg